



Ymateb wedi'i ddiweddaru i: Arolygiad Thematig ar y Cyd o'r Daith Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Unigolion ag Anghenion ac Anhwylderau Iechyd Meddwl

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 17 Tachwedd 2021

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu gwreiddiol: 4 Mawrth 2022

Cyflwynwyd y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu terfynol: 27 Mawrth 2023

## CYFLWYNIAD

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw'r corff arolygu annibynnol ar gyfer gwasanaethau troseddwyd ifanc a phrawf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddwyd ifanc gydag oedolion a phlant.

Mae'n ofynnol bod HMPPS/y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mewn cydweithrediad ag asiantaethau lechyd a Chyfiawnder y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, yn drafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i ymdrin â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu yn cadarnhau a gytunir â'r argymhellion, a gytunir arnynt yn rhannol neu a anghytunir â nhw (gweler y categorïau isod). Os cytunir ar argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynllun gweithredu yn darparu camau penodol i ymdrin â'r rhain. Mae camau gweithredu yn glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol, gyda'r un sy'n gyfrifol ac amserlen pob cam wedi'u nodi'n glir. Cyhoeddir cynlluniau gweithredu ar wefan Arolygiaeth Prawf EM. Bydd y cynnydd ar weithredu a chyflawni'r camau gweithredu yn cael ei fonitro gan HMPPS/ y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r asiantaethau lechyd a Chyfiawnder perthnasol eraill a'i adolygu'n flynyddol gan Arolygiaeth Prawf EM.

Term	Diffiniad	Sylwadau ychwanegol
Cytunir	Cytunir â phob rhan o'r argymhelliad, gellir ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy.	Dylai'r ymateb egluro'n glir sut y caiff yr argymhelliad ei gyflawni, gan nodi amserlen. Dylai'r camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Dylai'r camau fod yn ddigon penodol i allu olrhain eu cynnydd.
Cytunir yn Rhannol	Cytunir â rhan yn unig o'r argymhelliad, a dim ond rhan ohono y gellir ei chyflawni, sy'n fforddiadwy ac a fydd yn cael ei gweithredu. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw na allwn weithredu'r argymhelliad yn ei gyfanrwydd oherwydd rhesymau yn ymwneud â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd. .	Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei gweithredu, a chynnwys camau gweithredu CAMPUS, a dylem allu olrhain y cynnydd. <b>Rhaid</b> egluro pam na allwn gytuno'n llwyr â'r argymhelliad – rhaid i'r eglurhad nodi'n glir a yw hyn oherwydd rhesymau yn ymwneud â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd.
Ni Chytunir	Ni chytunir â'r argymhelliad ac ni fydd yn cael ei weithredu. Gallai hyn fod oherwydd rhesymau yn ymwneud â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd .	Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau dros ddewis yr opsiwn hwn. <b>Rhaid</b> egluro pam na allwn gytuno â'r argymhelliad – rhaid i'r eglurhad nodi'n glir a yw hyn oherwydd rhesymau yn ymwneud â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd.

1. Rhif Arg.	2. Argymhelliad	3. Cytunir/ Cytunir yn Rhannol / Ni Chytunir	4. Ymateb Camau a Gymerwyd / a Gynlluniwyd	5. Perchennog Cyfrifol	6. Dyddiad Targed
--------------	-----------------	--	--	------------------------	-------------------

**Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru:**

1	<p>Cytuno ar y diffiniadau mwyaf priodol i ddiffinio cwrpas pobl yn y system cyfiawnder troseddol â phroblemau iechyd meddwl, er mwyn galluogi nodi a sgrinio anghenion iechyd meddwl yn gyson ar wahanol gamau o daith unigolyn drwy'r system cyfiawnder troseddol. Bydd diffiniadau sy'n cael eu cymeradwyo'n genedlaethol, ac sy'n briodol i'r system cyfiawnder troseddol yn galluogi asiantaethau i nodi achosion yn gyson ar systemau cofnodi lleol.</p>	<p>Cytunir yn Rhannol</p>	<p>Cytunir yn Rhannol â'r argymhelliad hwn. Nid yw'r Partneriaid Iechyd a Chyfiawnder yn cytuno bod angen diffiniad, gan fod diffiniad clinigol, wedi'i bennu gan Sefydliad Iechyd y Byd, y cytunwyd arno'n rhyngwladol, yn bodoli'n barod. Er hyn, cydnabyddir bod angen gwaith pellach i nodi a chofnodi anghenion iechyd meddwl.</p> <p>Mae <a href="#">Sefydliad Iechyd y Byd</a> yn diffinio Iechyd Meddwl fel cyflwr lles, lle mae'r unigolyn yn sylweddoli ei alluoedd ei hun, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn gallu cyfrannu i'w gymuned. Mae anhwylderau meddyliol yn amharu ar iechyd meddwl unigolyn, ac yn cael eu nodweddu yn aml gan ryw gyfuniad o feddyliau, emosiynau, ymddygiad a pherthnasoedd cythryblus â phobl eraill. Rhai enghreifftiau o anhwylderau meddyliol yw iselder, anhwylder gorbryder, anhwylder ymddygiad, anhwylder deubegynol, a seicosis.</p> <p>Yn hytrach na safoni diffiniadau yn genedlaethol, rydym wedi ymrwymo i'r gweithgarwch a ganlyn a fydd yn gwella'r ffordd rydym yn adnabod, fflagio, cysoni a rhannu gwybodaeth am anghenion iechyd meddwl unigolyn ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd Partneriaid Iechyd a Chyfiawnder yn cydweithio ag asiantaethau perthnasol i helpu i sicrhau bod gan staff yr hyder a'r wybodaeth i ddefnyddio systemau gwybodaeth er mwyn cofnodi data perthnasol am anghenion iechyd yn gyson, er enghraifft, drwy adolygu canllawiau ar fflagio anghenion iechyd meddwl ar system rheoli achosion y Gwasanaeth Prawf (n-Delius), fel y nodir mewn ymateb i argymhelliad 19.</li> </ul>	<p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwy Benywaidd ac Iechyd</p> <p><b>Y Swyddfa Gartref:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd</p> <p><b>DHSC:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Iechyd Troseddwy</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	
---	--	---------------------------	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneud arferion rhannu gwybodaeth yn fwy cyson ar draws asiantaethau lle maent yn ymwneud ag anghenion iechyd, yn unol â'n hymrwymadau mewn ymateb i argymhelliad 4.</li> <li>Mae NHS England and Improvement wedi dechrau cyflwyno swyddogaeth GP2GP. Bydd hyn yn sicrhau y bydd 100% o'r ddarpariaeth meddygon teulu yn yr ystad carchardai oedolion yn gallu cofrestru cleifion â'r swyddogaeth i drosglwyddo cofnodion clinigol i ac oddi wrth ddarpariaeth meddygon teulu yn y gymuned. Bydd hyn yn sicrhau mwy o ddilyniant gofal i bobl sy'n dod i'r ystad carchardai ac yn ei gadael, gan ddiogelu cynnydd mewn iechyd a gafwyd wrth ddod i'r carchar a'i adael. Mae'r gwaith cyflwyno'n cael ei wneud mewn 6 cham a bydd y gwaith wedi'i gwblhau mewn carchardai dynion erbyn mis Mehefin 2022. (Y safle cyntaf i fynd yn weithredol oedd Carchar Kirklevington, ddydd Llun 14 Chwefror.) Mae rhagor o waith i'w wneud yn yr ystad carchardai menywod er mwyn cydgysylltu gofynion y rhaglen sgrinio serfigol.</li> </ul> <p>Yn Lloegr, mae partneriaid lechyd a Chyfiawnder yn sefydlu gweithgor i nodi ffyrdd i wella'r llif gwybodaeth o asesiadau Cyswllt a Dargyfeirio NHS England i'r system cyfiawnder troseddol.</p> <p>Yng Nghymru, bydd Gwasanaethau Cyswllt Cyfiawnder Troseddol yn parhau i wneud gwaith sgrinio er mwyn canfod a oes ffactorau sy'n gwneud unigolyn yn agored i niwed. Gwneir hyn er mwyn cefnogi'r unigolyn a'r Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol lleol, sy'n cynnwys yr Heddlu, Llysoedd a'r Gwasanaeth Prawf.</p>		Mehefin 2022
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>Polisi MoJ</b> Mae'r MoJ yn cydweithio'n agos â HMPPS, GLITEF ac NHS England i wella'r llif gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion a ffactorau risg iechyd meddwl ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol drwy grwpiau sefydledig. Mae hyn yn cynnwys y gwaith sylweddol i fwrw ymlaen â chyflawni diwygiadau yn y Bil Iechyd Meddwl drafft ac ogystal â bod yn ffocws allweddol i'r Grŵp Cyflawni Gweithredol ar Ofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol.</p>	<p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd</p>	Wedi'i gwblhau

	<p><b>HMPPS</b> Cwblhawyd adolygiad o fflagiau perthnasol yn n-Delius mewn partneriaeth â phartneriaid ac ymarferwyr iechyd. Cytunwyd ar y newidiadau sydd eu hangen mewn systemau i gasglu ac adrodd ar wybodaeth ac rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau yn ymddangos yn n-Delius erbyn Ebrill 2023 gyda diweddariad o'r canllawiau i staff.</p> <p><b>NHS England</b> Mae'r gwaith o gyflwyno GP2GP yn Lloegr wedi'i gwblhau.</p> <p><b>Y Swyddfa Gartref</b> Mae'r Swyddfa Gartref yn cefnogi'r gwaith gan yr NPCC i gyflawni'r gweithgarwch yn ei Strategaeth Iechyd Meddwl 2022-2025. Mae hyn yn cynnwys amcanion i wella'r ffordd o adnabod anghenion iechyd meddwl drwy blismona ac ymateb lle mae hynny'n briodol, gan gydweithio'n unol ag amcanion partneriaeth craidd.</p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b> Bydd Gwasanaethau Cyswllt Cyfiawnder Troseddol yn parhau i sgrinio er mwyn canfod ffactorau sy'n gwneud unigolion yn agored i niwed.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol â Phortffolio Thematig Iechyd</p> <p><b>DHSC:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Iechyd Troseddwyr</p> <p><b>Y Swyddfa Gartref:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Ebrill 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	---	--	--

**Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England and Improvement a Llywodraeth Cymru:**

2	Sicrhau cyflenwad digonol o welyau lefel diogelwch canolig ac uchel i leihau'r amseroedd	Cytunir	Mae cyflenwad digonol o welyau diogel i oedolion. Mae'r pwyslais ar wella effeithlonrwydd ar draws y llwybr cyfan, h.y. sicrhau hyd arhosiad priodol, lleihau trosglwyddiadau a thrwy hynny wella'r niferoedd sy'n mynd drwy'r	<b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Rhaglenni Clinigol, Comisiynu Arbenigol	Yn mynd rhagddo
---	--	---------	--	--	-----------------

<p>aros annerbyniol ar gyfer trosglwyddo o'r ddalfa.</p>	<p>system. Bydd hyn yn gwneud gwell defnydd o'r capasiti presennol ar draws y system gyfan, gan gynnwys y llwybr i'r carchar ac o'r carchar.</p> <p>Ar gyfer gwelyau lefel diogelwch canolig ac isel, mae'r 15 Cydweithredfa Darparwyr Gwelyau Diogel i Oedolion, sy'n cael eu harwain gan y GIG, yn chwarae rôl arweiniol drwy reoli'r llwybr cleifion a rhoi sylw i anghenion eu poblogaeth leol tra'n ymwneud hefyd â chomisiynu cenedlaethol strategol a chadw cyfanrwydd yr ystad ddiogel gyffredinol.</p> <p>O ran gwelyau diogelwch uchel, bydd y cynllun comisiynu 5 mlynedd yn lle'r un presennol yn cael ei ddatblygu erbyn mis Medi 2022 (mewn pryd ar gyfer diwedd y cynllun presennol) a bydd yn disgrifio'r model clinigol, y llwybrau a'r capasiti sydd ei angen ar gyfer ei weithredu erbyn 2026.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio ac ailgyhoeddi <a href="#">Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</a> yn ddiweddar mewn ymateb i effeithiau COVID-19. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel bresennol ar gyfer cleifion mewnol ac ymrwymiad i ddatblygu strategaeth cleifion mewnol diogel ar gyfer Cymru. Bydd yr archwiliad yn gwneud argymhellion yn awr yn ymwneud â gwasanaethau diogel i gleifion iechyd meddwl mewnol (oedolion a phlant a phobl ifanc) a chaiff y rhain eu hystyried gan Lywodraeth Cymru yn unol â hynny.</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Rhaglenni Clinigol, Comisiynu Arbenigol</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is- adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Medi 2022</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
	<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>NHS England</b> Mae pob un o'r 15 cydweithredfa darparwyr dan arweiniad y GIG wedi cael eu sefydlu'n llwyr bellach ac wedi datblygu a gweithredu eu cynlluniau er mwyn delio ag anghenion eu poblogaethau lleol gan ganolbwyntio'n benodol ar wella llwybrau cleifion. Mae Cydweithredfeydd Darparwyr (CDau) rhanbarthol a chomisiynwyr cenedlaethol yn dod ynghyd yn rheolaidd mewn fforymau cenedlaethol sefydledig i gadw cyfanrwydd cyffredinol yr ystad. Yn ogystal â hyn, mae clinigwyr arweiniol o bob CD yn dod ynghyd ar lefel genedlaethol i gyfrannu at yr arweinyddiaeth a'r cyngor clinigol cyffredinol i'r system ddiogel i oedolion yn unol â gofynion y grŵp cyfeirio clinigol ar y system ddiogel i oedolion.</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Rhaglenni Clinigol, Comisiynu Arbenigol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

	<p>Sefydlwyd Rhaglen Galw a Chapasiti Diogelwch Uchel i ddelio â'r gofyniad i reoli galw a chapasiti ar sail cylch 5 mlynedd. Datblygir y fersiwn bresennol drwy ddull cydweithredol rhwng comisiynwyr a darparwyr sy'n sicrhau dull seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried y cyd-ddibyniaethau ag agweddau eraill ar y llwybr diogel i oedolion.</p>	Iechyd Meddwl Diogel Oedolion y GIG	Wedi'i gwblhau
	<p>Mae saith ffrwd waith wedi cyflawni gwaith i ystyried holl elfennau'r ddarpariaeth o ofal diogelwch uchel. Y ffrydiau gwaith yw: Gweithlu, Cohort y dyfodol, Cyllid, Data digidol, Cydgysylltu â charchardai, Gwasanaethau cenedlaethol – cwblhawyd adolygiad llawn o wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio, menywod a phobl fyddar.</p>		Wedi'i gwblhau
	<p>Mae NHSE hefyd ar fin dechrau ar y broses awdurdodi ysbytai diogelwch uchel, sydd angen ei chwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024 fel y gellir rhoi trwydded 5 mlynedd i'r ysbytai diogelwch uchel o 31 Mawrth 2024.</p>		Mawrth 2024
	<p><b>Llywodraeth Cymru</b> Daeth yr Ymgynghoriad ar y Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i ben ar ddydd Gwener 13 Ionawr 2023. Caiff ymatebion eu coladu a'u hystyried gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn yr wythnosau nesaf i gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth ar gyfer ei chyhoeddi.</p>	<b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed	Medi 2023

### Dylai NHS England and Improvement, fel y comisiynydd, a Llywodraeth Cymru:

3	<p>Sicrhau bod anghenion pobl yn y system cyfiawnder troseddol yn cael sylw priodol wrth gomisiynu asesiadau iechyd meddwl a darparu triniaeth.</p>	Cytunir	<p>Mae asesiad cynhwysfawr o anghenion iechyd meddwl wedi'i gwblhau ym mhob carchar yn Lloegr a disgwylir y bydd yn barod i'w gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at fanyleb wedi'i diweddaru ar gyfer iechyd meddwl yn y gwasanaeth carchardai erbyn Ebrill 2023, yn seiliedig ar gyfraniadau gan y rhai sydd â phrofiad bywyd.</p> <p>Bydd comisiynwyr rhanbarthol yn comisiynu Dadansoddiad o Anghenion Iechyd lleol cyn unrhyw broses gaffael newydd er mwyn sicrhau bod</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCau)</p>	<p>Ebrill 2022</p> <p>Ebrill 2023</p>
---	---	---------	--	---	---------------------------------------

		<p>adnoddau priodol ar gael i wasanaethau ar draws y system cyfiawnder troseddol.</p> <p>Parheir i ystyried anghenion iechyd meddwl pobl yn y system cyfiawnder troseddol yn rhan o gyfrifoldebau'r byrddau iechyd yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid i ddechrau gweithredu'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yng Nghymru a'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd ar gyfer y carchardai yn ystod 2022.</p>	<p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Rhagfyr 2022</p>
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymiadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>NHS England</b> Rhannwyd y drafft terfynol o'r adroddiad ar y dadansoddiad o anghenion iechyd Meddwl yn Ionawr 2023 â phartneriaid a rhanddeiliaid, yn cynnwys Grŵp Amgylcheddau Diogel Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, y Grŵp Cyfeirio Clinigol Iechyd a Chyfiawnder a'r Uwch Dîm Rheoli i'w adolygu a chael sylwadau amdano. Disgwylir ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2023.</p> <p>Mae Asesiadau o Anghenion Iechyd yn gyfrifoldeb i gomisiynwyr rhanbarthol y GIG, a chyflawnir y rhain un ai o ganlyniad i gaffael gwasanaeth, newid mawr yn y sefydliad (er enghraifft, cynyddu ei gapasiti) neu os na chyflawnwyd asesiad o'r fath yn y 3 blynedd diwethaf.</p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b> Parheir i ystyried anghenion iechyd meddwl y bobl sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn rhan o gyfrifoldebau byrddau iechyd yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n cwrdd ag anghenion y boblogaeth leol.</p> <p>Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau (FfTCS) newydd a safonau</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCau)</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Mawrth 2023</p> <p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Rhagfyr 2023</p>



	<p>newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yng Nghymru, y bwriad yn awr yw y bydd 2023/24 yn flwyddyn interim ar gyfer gweithredu'r FfTCS a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Bydd swyddogion LIC, mewn partneriaeth â HMPPS ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cydweithio â'r carchardai a'r byrddau iechyd yng Nghymru ar y camau nesaf a'r amserlenni, ar sail yr adborth o'r ymgynghoriad. Rhagwelir y bydd angen cynnal dadansoddiad o'r bylchau gan fyrddau iechyd a'r carchardai yng Nghymru er mwyn pennu camau allweddol i'w cymryd i helpu i gyflawni'r FfTCS a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd cymorth ychwanegol ar gael i'r carchardai hefyd er mwyn eu cyflawni, fel y fenter <a href="#">Straen Trawmatig Cymru</a> a'i ffocws ar <a href="#">gynorthwyo'r rheini yn y carchar</a> sydd wedi profi trawma i gael mynediad at y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt a datblygu llwybr clinigol ar gyfer straen trawmatig mewn carchardai. Bydd LIC yn cynnal cyfarfod consensws clinigol i gefnogi'r gwaith hwn ddiwedd Mawrth 2023.</p>		
--	--	--	--

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref gydwethio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru i:**

4	<p>Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth aml-asiantaeth ar rannu gwybodaeth er mwyn hyrwyddo gwell cydweithio a chanlyniadau gwell i bobl â phroblemau iechyd meddwl.</p>	<p>Cytunir yn Rhannol</p>	<p>Cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn. Mae'r Partneriaid Iechyd a Chyfiawnder (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Llywodraeth Cymru, NHS England and Improvement, Y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)) wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am iechyd meddwl yn cael ei rhannu'n gyfreithlon ac yn amserol. Er hyn, nid ydym yn cytuno y byddai un Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth aml-asiantaeth newydd yn gwella'r gwaith hanfodol o rannu gwybodaeth.</p> <p>I roi'r cyd-destun:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r ddeddfwriaeth bresennol, e.e. Deddf Trosedd ac Anhrefn (1998) a Deddf Diogelu Data (2018), yn darparu'r sail gyfreithiol angenrheidiol ar gyfer rhannu gwybodaeth anghydsyniol yn gyfreithlon at ddibenion Gorfodi'r Gyfraith a rhannu Gwybodaeth Categori Arbennig, er enghraifft gwybodaeth berthnasol am Iechyd Meddwl.</li> </ul>	<p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd</p> <p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>Y Swyddfa Gartref:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd</p>	
---	--	---------------------------	--	---	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gwybodaeth a gesglir fel rhan o daith unigolyn drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys drwy Wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio wedi'i chynnwys eisoes mewn protocolau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli'n barod.</li> <li>Yn Lloegr, mae'r <a href="#">Datganiad Consensws ar Rannu Gwybodaeth ac Atal Hunanladdiad</a> yn darparu sail glir ar gyfer rhannu data personol mewn argyfwng, gan gynnwys er mwyn amddiffyn unigolyn rhag niwed difrifol, neu sicrhau na cholir bywydau.</li> <li>Er mwyn rhannu gwybodaeth categori arbennig na chydysyniwyd i'w rhannu, mewn ffordd gyfreithlon, er enghraifft data iechyd meddwl dan y Ddeddf Diogelu Data (2018), mae angen Dogfen Bolisi Briodol sy'n gofyn am wybodaeth fwy penodol nag y mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth partneriaeth yn unig yn debygol o'i darparu. Er enghraifft, mae gan HMPPS Gytundeb Rhannu Gwybodaeth ag NHS England and Improvement.</li> </ul> <p>Fel rhan o'n hymrwymiad i gryfhau trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd <b>HMPPS</b> yn parhau i ddatblygu a gweithredu Cytundebau Rhannu Data lleol er mwyn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth categori arbennig mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data ar gyfer Dogfennau Polisi Priodol.</li> <li>Bydd <b>HMPPS</b> ac <b>NHS England and Improvement</b>, drwy grŵp gorchwyl a gorffen, yn diweddarau'r canllawiau gweithredu presennol sydd ar gael i staff rheng flaen mewn carchardai. Caiff y canllawiau diwygiedig eu rhannu yn gynnar yn 2022.</li> <li>Bydd y <b>Swyddfa Gartref</b> yn cefnogi'r argymhelliad hwn drwy ofyn, erbyn mis Gorffennaf 2022, i Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ystyried mabwysiadu dull cyson o rannu gwybodaeth yn ymwneud â chanllawiau i heddluoedd er mwyn helpu i hybu gwell arferion cydweithio ym maes cyfiawnder troseddol. Ar hyn o bryd mae'r dulliau gweithredu'n amrywio, a rhai Cytundebau Rhannu Gwybodaeth wedi'u datblygu ar sail ranbarthol yn adlewyrchu ffiniau iechyd a phlisma penodol tra bo eraill yn ffafrio Cytundebau Rhannu Gwybodaeth sy'n ymdrin â nifer o awdurdodau iechyd ac ardal heddlu cyfan ehangach. Bydd dull safonedig yn hybu cysondeb mewn</li> </ul>	<p><b>Yr Heddlu:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p> <p><b>DHSC:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Iechyd Troseddwyr</p> <p><b>CPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Ebrill 2022</p> <p>Gorffennaf 2022</p>
--	--	---	---	--

		<p>hyfforddiant rhannu gwybodaeth (Deddf Diogelu Data 2018) a datgelu (Cod Ymarfer Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996) a fydd yn well o ran hwyluso datblygiad yr arferion gorau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yng Nghymru mae <a href="#">Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai</a>, a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd a HMPPS yng Nghymru. Mae'n cynnwys blaenoriaeth benodol mewn cysylltiad ag iechyd meddwl a datblygu safonau newydd i wasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio â phartneriaid fel rhan o Grŵp Archwiliad Dwfn i Gamddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl, sy'n canolbwyntio ar sicrhau mynediad i wasanaethau cymunedol ar gyfer pob unigolyn, gan gynnwys cyn-droseddwyr. Prif ffocws y grŵp yw chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau integredig, cofleidiol i bob grŵp yn y gymuned, a fydd yn cynnwys cyn-droseddwyr. Yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yng Nghymru, mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn datblygu trefniadau monitro. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid i ddechrau gweithredu'r safonau newydd ar gyfer iechyd meddwl a'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau mewn carchardai yn 2022.</li> </ul>		Rhagfyr 2022
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>HMPPS/NHSE</b> Mae cyfres o adnoddau ar rannu gwybodaeth, a gynhyrchwyd ar y cyd ag NHS England, wedi cael ei rhannu â charchardai a chrëwyd cynhyrchion ychwanegol i'r gwasanaeth prawf. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i droi'n Grŵp Cyngori ar y cyd sefydlog NHSE/HMPPS ar Rannu Gwybodaeth ac mae'n parhau i ddarparu arbenigedd a chynghor i staff gweithredol.</p> <p><b>Yr Heddlu</b> Mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn i'r NPCC ystyried mabwysiadu safbwynt cyson ar rannu data. Mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn gwaith a gyflawnwyd gan bortffolio Iechyd Meddwl yr NPCC sydd wedi penderfynu'r ffordd orau i ddelio â hyn, ac wedi argymhell y canlynol i'w holl heddluoedd:</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>Yr Heddlu:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r NPCC yn parhau i fireinio'r canllawiau ar rannu gwybodaeth drwy waith cydgysylltiedig gan Bwyllgor Cydgysylltu Data a Thechnoleg Ddigidol yr NPCC. Mae'r portffolios thematig yn y pwyllgor hwnnw wedi gweithio ar gynnyrch i helpu heddluoedd i wneud penderfyniadau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae'r ddogfen ganllaw hon ar hunanwirio wedi cael ei chyhoeddi bellach ac mae ar gael i heddluoedd.</li> <li>Mae portffolio Iechyd Meddwl yr NPCC wedi cyhoeddi ei strategaeth nesaf ar gyfer 2022 – 2025 ac mae'r ddogfen hon drwyddi draw yn hyrwyddo ffyrdd i wella cysylltiadau gweithio lleol. Lluniwyd y strategaeth ar ôl ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn ar yr arolygiad thematig ac mae'n cynnwys amcanion penodol ar Drosolwg Strategol, Data, a Rheoli Gwybodaeth a Chyfiawnder Troseddol. Mae nodau'r strategaeth wedi cael cefnogaeth gyffredinol gan gynnwys yr amcan ar rannu data.</li> </ul> <p><b>Llywodraeth Cymru</b> Gweler y diweddariad ar Lywodraeth Cymru yn argymhelliad 3.</p>		
--	--	--	--

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gydweithio ag NHS England and Improvement a Llywodraeth Cymru i:**

5	Sicrhau ar unwaith fod carcharorion sy'n ddifrifol wael ac sydd ag angen triniaeth iechyd meddwl ddiogel fel claf mewnol mewn ysbyty yn cael eu trosglwyddo o fewn 28	Cytunir	<p>Mae HMPPS ac NHS England and Improvement wedi ymrwymo'n llwyr i'r cyfnod 28 diwrnod, gan gydweithio er mwyn gwella'r broses drosglwyddo a dileu, sicrhau bod unrhyw oedi'n cael ei leihau ac nad yw carchardai'n cael eu defnyddio'n amhriodol.</p> <p>Yn y <a href="#">Papur Gwyn ar Ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl</a>, ymrwymodd y Llywodraeth i gyflwyno terfyn amser statudol newydd o 28 diwrnod ar gyfer</p>	<b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd	
---	---	---------	---	--	--

<p>diwrnod, yn unol â chanllawiau'r GIG.</p>	<p>trosglwyddiadau o'r carchar i ysbyty iechyd meddwl ar ôl i <a href="#">Ganllawiau Trosglwyddo a Dileu</a> NHS England and Improvement, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, gael eu sefydlu'n iawn.</p> <p>Ar ôl i'r Canllawiau gael eu cyhoeddi, cychwynnodd NHS England and Improvement ar raglen weithredu yn cynnwys gweminarau ac ymweliadau rhanbarthol pwrpasol yn canolbwyntio ar ddarparwyr er mwyn sicrhau bod staff yn deall y newidiadau sydd wedi'u gwneud, dyddiadau allweddol sy'n cael eu monitro a llwybrau uwchgyfeirio.</p> <p>Mae NHS England and Improvement hefyd wedi datblygu proses newydd ar gyfer casglu a monitro data ar drosglwyddiadau. Mae porth mewnbynnu data wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2021, ac mae'n galluogi darparwyr i gyflwyno data trosglwyddo a dileu. Cânt eu dadansoddi er mwyn nodi patrymau a meysydd lle mae angen rhagor o welliannau er mwyn bodloni gofyniad y cyfnod 28 diwrnod a nodir yn y canllawiau. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n fisol ac os gwelir nad yw gwaith yn cael ei gyflawni o fewn y cyfnod gofynnol neu fod patrymau eraill yn peri pryder, bydd gwaith wedi'i dargedu yn cael ei wneud gyda thimau rhanbarthol. Bydd NHS England and Improvement yn adolygu hyn ar sail data monitro misol ac yn ystyried cynnydd ar ôl i'r canllawiau fod mewn grym am 12 mis.</p> <p>Mae'r Is-adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (MHCS) yn HMPPS yn gweithio yn unol â thargedau amseroldeb sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer pob un o'i phenderfyniadau allweddol, gan gynnwys trosglwyddiadau carchar. Mae MHCS wedi adolygu fframwaith perfformiad 2019 ac wedi cyhoeddi <a href="#">fframwaith perfformiad diwygiedig ar gyfer 2021/22</a>. Mae'r perfformiad ar y targed amseroldeb hwn o fewn y targed ar hyn o bryd. Bydd MHCS yn parhau i fesur perfformiad, a bydd cyfnodau cyfartalog mewn cysylltiad â'r targedau hyn yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid yn chwarterol.</p> <p>Mae byrddau iechyd yng Nghymru yn cydweithio â phartneriaid er mwyn sicrhau trosglwyddiadau amserol. Fodd bynnag, gall nifer o ffactorau effeithio ar hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU ar y cynigion a amlinellwyd ym <a href="#">Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl</a>, gan gynnwys y cynnig ar gyfer terfyn amser statudol 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddiadau.</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau</p> <p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Mehefin 2022</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Yn mynd rhagddo</p>
--	--	---	--

**Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)**

**Polisi MoJ**

Mae'r Bil Iechyd Meddwl drafft, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2022, yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i gyflwyno terfyn amser statudol o 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty. Nod y terfyn amser statudol hwn, ynghyd â gwelliannau gweithredol, yw lleihau oedi diangen a sicrhau mynediad cyflym at driniaeth.

Mae gweithgor trawsasiaentaethol, o dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi dod â phartneriaid iechyd a chyfiawnder ynghyd yn DHSC, HMPPS, y Swyddfa Gartref, NHS England, a GIG Cymru i gyflawni a hyrwyddo gweithrediad y diwygiadau hyn.

Yng nghyfnod cyntaf y gwaith, canolbwyntiwyd ar ymgysylltu ag arweinwyr gweithredol a chlinigol i gwmpasu'r rôl monitro annibynnol anstatudol a chytuno ar ffordd i ddelio ag amgylchiadau eithriadol. Mae NHSE hefyd wedi cwmpasu'r gwaith y bydd ei angen i ddarparu system tracio gynhwysfawr i fonitro cydymffurfiaeth â'r terfyn amser a chanfod achosion oedi.

Bydd cyfnod nesaf y gwaith yn cynnwys:

- Llunio proses hysbysiadau statudol i hysbysu'r partion perthnasol bod trosglwyddiad wedi'i gychwyn a'u bod yn gweithio'n unol â therfyn amser statudol.
- Cwblhau'r gwaith o gynllunio'r rôl anstatudol annibynnol a fydd yn sicrhau bod budd pennaf y claf yn cael ei ystyried drwy gydol y broses trosglwyddo.
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Data NHSE yn bwrw ymlaen â'r gweithgarwch gwella sydd ei angen i sicrhau system tracio a monitro effeithiol.

**NHS England**

Cyhoeddwyd canllawiau ar weithredu ym Mehefin 2021. Darparwyd dau weminar ar lefel genedlaethol ar y cyd â chydweithwyr Comisiynu Arbenigol i gynorthwyo clinigwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau wrth weithredu'r canllawiau newydd. Yn ogystal â hyn, darparwyd gweminarau rhanbarthol

**Polisi MoJ:**  
Dirprwy  
Gyfarwyddwr, Polisi  
Troseddwyr  
Benywaidd ac Iechyd

Wedi'i  
gwblhau

**NHS England:**  
Cyfarwyddwr Iechyd  
a Chyfiawnder, y  
Lluoedd Arfog a  
SARCau

Wedi'i  
gwblhau

	<p>pwrpasol ar gyfer eu gweithredu. Hefyd darparwyd ymweliadau â sefydliadau er mwyn helpu i'w gweithredu.</p> <p>Mae NHS England wedi datblygu proses newydd ar gyfer casglu a monitro data ar drosglwyddiadau.</p> <p><b>HMPPS</b> Mae'r Is-adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (MHCS) yn HMPPS yn gweithio ar sail gofynion a gyhoeddwyd ar amseroldeb yn ei holl benderfyniadau allweddol, yn cynnwys trosglwyddiadau o'r carchar. Mae'r MHCS wedi adolygu fframwaith perfformiad 2019 ac wedi cyhoeddi fframwaith perfformiad 2021/22 diwygiedig. Mae'r MHCS yn parhau i fonitro perfformiad ar sail ei thargedau amseroldeb a bydd hyn yn cael ei rannu â rhanddeiliaid yn rheolaidd. O ran trosglwyddiadau o'r carchar, mae'r perfformiad o fewn y targed ar hyn o bryd.</p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b> Mae byrddau iechyd yng Nghymru yn parhau i gydweithio â phartneriaid i sicrhau trosglwyddo amserol. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid yng Nghymru ar y cynigion a amlinellwyd ym <a href="#">Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl</a>, gan gynnwys y cynnig ar gyfer terfyn amser statudol 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddiadau. Unwaith y bydd y cyfnodau ar gyfer y ddyletswydd statudol wedi cael eu cadarnhau, bydd LIC yn adolygu'r broses i sicrhau cydymffurfiaeth.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>		
6	<p>Dod â'r defnydd amhriodol o garchardai i ben fel manau diogel, a sicrhau bod dewisiadau amgen i garchar ar gael i ddefnyddwyr, yn unol â phapur gwyn y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p>	<p>Cytunir</p>	<p>Yn y <a href="#">Papur Gwyn ar Ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl</a>, cytunodd y Llywodraeth na ddylid defnyddio carchar fel 'man diogel' dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol ac ymrwymodd i ddiwygio deddfwriaeth yn unol â hynny cyn gynted ag y bo modd.</p> <p>Mae'r ffactorau a allai arwain at ddefnyddio carchardai fel hyn yn gymhleth, gan gynnwys ymwybyddiaeth ymhlith dedfrydwyr, dulliau rhannu gwybodaeth cadarn a phrydlon a'r adnoddau iechyd sydd ar gael neu sy'n hygyrch. Er mwyn deall yn iawn sut, pryd a pham y mae hyn yn digwydd, cyn y gallwn fod yn siŵr ynglŷn â rhoi'r gorau i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl yn ddiogel, mae'r</p>	<p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd</p> <p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p>	

		<p>MoJ, DHSC, HMPPS, GLITEM ac NHS England and Improvement wedi sefydlu Gweithgor trawsadrannol er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddi ffynonellau data perthnasol ac enghreifftiau o achosion i archwilio pa mor aml ac ym mha amgylchiadau y mae hyn yn digwydd. Mae nifer o senarios lle gellid defnyddio carchar fel man diogel, a bydd y dewisiadau priodol yn lle carchar yn amrywio gan ddibynnu a yw'r unigolyn yn cael ei remandio ar gyfer asesiad, ei remandio ar gyfer triniaeth, neu cyn cael ei dderbyn i ysbyty ar gyfer triniaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983).</li> <li>• Datblygu cofnod canolog i ddarparu darlun mwy cywir o'r defnydd o'r pwerau hyn a bod yn glir ynghylch y mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth gefndir berthnasol a gwybodaeth o ran risgiau am bobl sy'n cael eu hanfon o'r llys i'r carchar.</li> <li>• Deall y ffactorau sy'n sail i'r penderfyniad lle defnyddir carchar fel man diogel, pa wybodaeth a rannwyd i'w hategu, ac ar ba gamau yn y broses cyfiawnder troseddol y maent yn gweld y materion hyn yn codi.</li> </ul> <p>Unwaith y bydd y cam ymchwilio cychwynnol wedi'i gwblhau, bydd pob asiantaeth yn adolygu canfyddiadau a lle bo angen yn ystyried unrhyw gamau pellach sydd eu hangen, gan gynnwys nodi camau yn y broses lle gallai gwelliannau gael eu gwneud. Bydd yr ail gam hwn yn cynnwys edrych ar weithgareddau yn y llwybr cyfiawnder troseddol y gellid eu defnyddio er mwyn dargyfeirio rhywun oddi wrth y llysoedd.</p> <p>Bydd pob asiantaeth yn nodi ble mae angen newidiadau, a byddant yn cydweithio er mwyn datblygu ymateb trawsasiantaethol a chytuno ar flaenoriaethau.</p> <p>Gall unigolyn gael ei remandio i'r carchar hefyd dan gymal 'er ei ddiogelwch ei hun' y Ddeddf Mechnïaeth (1976), sy'n cael ei ddefnyddio weithiau mewn achosion lle mae pryder ynghylch materion iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol, a chyfeirir at hyn yn aml fel defnyddio carchar fel man diogel. Yn dilyn ymrwymiad gan y Llywodraeth yn gynnar yn 2021, mae'r MoJ yn cynnal adolygiad mewnol o'r defnydd o'r pŵer i remandio unigolyn 'er ei ddiogelwch ei hun'. Bydd angen ystyried y gwaith hwn yn ofalus cyn gwneud penderfyniad</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Mawrth 2022</p> <p>Ebrill 2022</p> <p>Mawrth 2022</p> <p>Mehefin 2022</p> <p>Medi 2022</p> <p>Mawrth 2022</p>
--	--	--	--	--



		<p>terfynol ynghylch diwygio'r ddeddfwriaeth i sicrhau nad oes unrhyw niwed yn dod i ran diffynyddion sy'n agored i niwed.</p>		
	<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>Polisi MoJ</b>  Mae'r Bil Iechyd Meddwl drafft, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2022, yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i roi terfyn ar y defnydd o'r carchar fel man diogel ac mae'n cynnwys camau i ddiwygio Deddf Mechnïaeth 1976 fel na fydd llysoedd wedyn yn gallu remandio diffynnydd er ei ddiogelwch ei hun ar sail iechyd meddwl yn unig.</p> <p>Mae'r gweithgor trawsasiantaethol, sydd o dan arweiniad yr MoJ, wedi dod â phartneriaid ynghyd yn GLITEF, HMPPS, y Swyddfa Gartref, NHS England, a Chyngor Cenedlaethol Penaeithiaid yr Heddlu i gyflwyno'r diwygiadau hyn a bwrw ymlaen i'w gweithredu.</p> <p>Drwy'r fforwm hwn, mae partneriaid yn bwrw ymlaen â chynllun gwaith cynhwysfawr a fydd yn cryfhau llwybrau i ddargyfeirio pobl agored i niwed at driniaeth briodol ar y cyfle cyntaf posibl, i wella trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth fel bod modd darparu asesiadau mwy amserol ar gyfer y rheini sydd â'u hangen, ac i osod canllawiau clir ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau mewn ffordd ddiogel.</p> <p>Rhoddir blaenoriaeth o hyd i ddeall graddau'r mater hwn fel y gallwn baratoi ar gyfer pwysau ychwanegol a allai godi o ganlyniad i'r diwygiadau a sicrhau bod y ddarpariaeth briodol ar gael. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr MoJ yn parhau i gydweithio â GLITEF i edrych ar opsiynau eraill ar gyfer datblygu'r sylfaen dystiolaeth a chael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n arwain at y defnydd o'r pŵer hwn.</p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b>  Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU ar y cynigion a amlinellwyd ym <a href="#">Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl</a>. Unwaith y bydd y cynnodau ar gyfer y ddyletswydd statudol wedi cael eu cadarnhau, bydd LIC yn adolygu'r broses i sicrhau cydymffurfiaeth.</p>	<p><b>Polisi MoJ:</b>  Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl,</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>	

			Camdefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed	
--	--	--	---	--

**Dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi:**

7	Diwygio'r ffurflen Gwell Rheolaeth Achos fel y gall gofnodi cyflyrau iechyd meddwl, er mwyn osgoi oedi diangen wrth benderfynu ar gyhuddo.	Ni Chytunir	<p>Nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i gytuno gan na fydd y ffurflen holiadur Gwell Rheolaeth Achos yn gwella "oedi diangen wrth benderfynu ar gyhuddo". Mae'r holiadur Gwell Rheolaeth Achos yn cael ei gwblhau yn y gwrandawriad cyntaf yn y llys ynadon os yw'r achos i gael ei anfon i Lys y Goron ac nid cyn cyhuddo fel y nodir yn yr argymhelliad.</p> <p>Mae'r ffurflen Gwell Rheolaeth Achos yn gofyn i'r defnyddiwr nodi manylion am faterion iechyd meddwl. Yr anawsterau, fel y nodir yn yr adroddiad, yw nad yw cyfreithiwr yr amddiffyniad yn aml yn gwybod dim am iechyd meddwl y diffynnydd gan mai yn y llys y mae wedi cyfarfod ei gleient am y tro cyntaf.</p>		
			Dim diweddariad: ni chytunwyd â'r argymhelliad.		
8	Sicrhau bod timau Cyswllt a Dargyfeirio yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cyswllt lleol i wella dealltwriaeth o'r ddarpariaeth a chysylltiadau cydweithio.	Cytunir	Erbyn mis Mawrth 2022, bydd Gweithrediadau Cyfreithiol GLITEM yn sicrhau bod Uwch Reolwyr Cyfreithiol Busnes yn cymryd camau i nodi cyswllt yn y tîm Cyswllt a Dargyfeirio ar gyfer eu hardal nhw, lle na wyddys pwy yw hwn/hon, ac yn sicrhau bod cynrychiolwyr o'r timau hynny yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cyswllt lleol e.e. lle mae gan GLITEM drefniadau cyswllt â'r Gwasanaeth Prawf neu staff llys.	<b>GLITEM:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gweithrediadau Cyfreithiol	Mawrth 2022
			<b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b>	<b>GLITEF:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr,	Wedi'i gwblhau

			cydweithio wedi'u gwneud i'r arweinydd hwnnw ddod i gyfarfodydd lleol â GLITEF a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill.	Gweithrediadau Cyfreithiol	
9	Gwella'r trefniadau ar gyfer comisiynu a monitro adroddiadau seiciatrig er mwyn sicrhau llai o oedi cyn dedfrydu, yn enwedig pan fydd yr unigolyn yn cael ei gadw yn y ddalfa.	Cytunir	Gall y gwaith o gomisiynu adroddiadau seiciatrig gael ei gwblhau gan wahanol bartïon, felly mae'n bosibl nad GLITEM yn unig fydd yn gyfrifol am fonitro. Mae angen ymchwilio ymhellach er mwyn canfod pa effaith y byddai cyflwyno'r mesur hwn yn ei gael. Bydd GLITEM yn arwain ar y gwaith hwn ar y cyd ag asiantaethau partneriaid drwy grŵp gorchwyl a gorffen aml-asiantaeth newydd, â chylch gorchwyl ar gyfer y gwaith yn cael ei asesu a gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2022.	<b>GLITEM:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Troseddu	Mehefin 2022
			<b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b>  Mae GLITEF wedi arwain adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer comisiynu a monitro adroddiadau seiciatrig er mwyn canfod graddau unrhyw oedi cyn cael adroddiadau seiciatrig yn y llys o ganlyniad i wneud ceisiadau am gyllid a'r angen i ddod o hyd i seiciatrydd. Ar sail profiad ac ar sail data a gafwyd gan bartneriaid, yn cynnwys y Gwasanaeth Cenedlaethol Amddiffynwyr Cyhoeddus (PDS) a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y trefniadau a phrosesau i gomisiynu a monitro adroddiadau seiciatrig yn gweithio'n dda ac mai prin yw'r dystiolaeth o oedi y gellir ei briodoli i'r broses hon.	<b>GLITEF:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Troseddu	Wedi'i gwblhau

**Dylai Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol Lleol (Yr Heddlu, CPS, Llysoedd, Prawf, Carchardai) a Chomisiynwyr / Darparwyr Iechyd:**

10	Datblygu a darparu rhaglen i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymhlith staff sy'n gweithio o fewn gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Dylai hyn gynnwys sgiliau i egluro'n well i unigolion pam y gofynnir cwestiynau iddynt am eu hiechyd meddwl fel y gellir	Cytunir	Mae'r Heddlu, CPS, Llysoedd, Prawf a Charchardai i gyd yn cynnig amrywiaeth o raglenni a/neu hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl. Mae hyn wedi'i fwriadu'n benodol i gwrdd ag anghenion eu sefydliadau a'u cyfrifoldebau eu hunain.  Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r rhaglen Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR) yn cynnwys rhaglen ymwybyddiaeth ar gyfer Cyfiawnder, Iechyd a'r Farnwriaeth.</li> <li>Hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer swyddogion carchar newydd drwy Hyfforddiant Lefel Mynediad Swyddogion Carchar (POELT).</li> </ul>		
----	--	---------	--	--	--

<p>ymsgysylltu â nhw yn fwy ystyrion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aide memoire y CPS i Erlynwyr a gyhoeddwyd yn Ebrill 2021.</li> <li>• Pecyn hyfforddiant Iechyd Meddwl y Coleg Plismona, sydd ar gael i'r holl heddluoedd.</li> </ul> <p>Mae sefydliadau wedi ymrwmo i ymgymryd â gwaith a/neu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ychwanegol fel a ganlyn:</p> <p><b>Yr Heddlu</b> Mae gan y Coleg Plismona becyn hyfforddiant Iechyd Meddwl yn barod, ac mae hwn ar gael i bob heddlu ar hyn o bryd drwy borth College Learn. Mae'r pecyn wedi'i fwriadu i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau Iechyd Meddwl, Niwroamrywiaeth a dulliau'r heddlu o ymdrin ag Iechyd Meddwl. Er hyn, nid yw'r ddau fodiwl Iechyd meddwl sydd ar gael ar College Learn yn hyfforddiant gorfodol ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd yr NPCC yn gofyn i heddluoedd gefnogi'r argymhelliad hwn drwy wneud hyfforddiant yn orfodol ar gyfer rolau cyfiawnder troseddol penodol a swyddogion dalfeydd.</p> <p><b>CPS</b> Yn Hydref 2019 cyhoeddodd y CPS ganllawiau cyfreithiol diwygiedig dan y teitl "Suspects and Defendants with Mental Health conditions and disorders". Yn Ebrill 2021, cyhoeddodd y CPS dogfennau "aide memoire" dilynol i helpu erlynwyr, mewn ffordd glir a hawdd ei deall, i ganfod eu ffordd drwy'r fframwaith cyfreithiol cymhleth sy'n codi pan fydd cyflwr Iechyd meddwl y diffynnydd yn golygu nad yw'n gymwys i bledio yn ei achos llys.</p> <p>Mae sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb undydd a gynlluniwyd ar gyfer 2020 wedi ei addasu yn awr yn ddau fideo hyfforddi, un ar gyfer achosion Llys y Goron, ac un ar gyfer achosion llysoedd ynadon. Lanswyd hyn ym Medi 2021 a gofynnir i bob erlynydd ddilyn yr hyfforddiant hwn.</p> <p><b>GLITEM</b> Bydd Gweithrediadau Cyfreithiol GLITEM yn sicrhau bod timau cyfreithiol llysoedd ynadon yn cael deunyddiau codi ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, wedi'u paratoi a'u darparu gan asiantaethau Iechyd meddwl. Bydd hyn yn galluogi staff cyfreithiol i gynorthwyo'r farnwriaeth i sicrhau bod y rhai sydd â chyflyrau Iechyd meddwl yn gallu deall a chymryd rhan mewn achosion llys.</p>	<p><b>Yr Heddlu:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl NPCC</p> <p><b>CPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi</p> <p><b>GLITEM:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gweithrediadau Cyfreithiol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Awst 2022</p> <p>Yn mynd rhagddo</p>
---	---	--	---

		<p>Daeth canllawiau'r Cyngor Dedfrydu 'Overarching principles: Sentencing offenders with mental disorders, developmental disorders, or neurological impairments' i rym ar 1 Hydref 2020. Bydd y Coleg Barnwrol yn paratoi hyfforddiant ar y canllawiau hyn i'r holl ynadon a chynghorwyr cyfreithiol a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi ym Mehefin 2022.</p>		Mehefin 2022
		<p><b>Iechyd</b> Mae'n ofynnol i bob darparwr gofal iechyd sicrhau bod ei weithwyr yn cwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n briodol i'w proffesiwn a'u rôl. Yn ogystal â hyn, bydd sefydliadau darparwyr yn cynnwys cyflwyniad i'r sefydliad a manau gwaith, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i weithwyr proffesiynol nad ydynt yn gweithio ym maes iechyd meddwl yn ogystal â hyfforddiant yn gysylltiedig â phrosesau'r HMPPS fel Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT). Cyfrifoldeb y darparwyr yw sicrhau bod yr holl staff yn gymwys a rhoddir sylw i gydymffurfiaeth â gofynion hyfforddi mewn cyfarfodydd adolygu contract rheolaidd.</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluedd Arfog a SARCAu</p>	Ebrill 2022
		<p><b>HMPPS</b> Ers mis Gorffennaf 2021, mae HMPPS wedi gweithredu hyfforddiant diogelwch newydd i staff carchardai ym mhob sefydliad. Bydd y staff i gyd yn derbyn hyfforddiant ar atal hunan-niweidio a hunanladdiad, ynghyd â hyfforddiant iechyd meddwl. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod gan staff y gallu i roi cefnogaeth briodol i garcharorion a all fod mewn perygl o'u niweidio eu hunain, ac mae'n un o nifer o ymdrechion i roi blaenoriaeth i ddiogelwch yn y carchar. Mae HMPPS bob amser yn ceisio gwella ei ddarpariaeth hyfforddiant ac mae hefyd yn datblygu hyfforddiant a fydd yn helpu staff i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ffactorau risg penodol neu sbardunau a allai beri i rywun ei niweidio ei hun.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p>	Yn mynd rhagddo
		<p>Mae HMPPS wedi comisiynu Skills for Justice i arwain a rheoli prosiect i greu Fframwaith Galluoedd Craidd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion. Bydd y fframwaith yn amlinellu'r galluoedd craidd sy'n ofynnol er mwyn gweithio gydag oedolion sydd ag angen ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogaeth yn y carchar. Ategir y fframwaith gan gwricwlwm Iechyd, Gofal a Llesiant ar gyfer staff carchardai a phrawf. Ymgynghorir ar y fframwaith drafft a bydd yn cael ei gwblhau ym Mawrth 2022.</p>		Mawrth 2022

**Cynnydd ar yr ymrwymiadau (Mawrth 2023)**

**CPS**

Lansiodd y CPS ei ddogfen 'Defendants: Fairness for All Strategy 2025' ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r Strategaeth yn amlinellu ein hymrwymiadau i rai dan amheuaeth a diffynyddion ac mae wedi'i hategu gan gynllun gweithredu ar gyfer 2022 / 23 sy'n nodi bod iechyd meddwl yn ffrwd waith allweddol. Mae'r CPS wedi ychwanegu fflag newydd at ei System Monitro Gwaith Achos i'w helpu i wella ei ddull o fonitro mewn achosion lle mae cyflwr iechyd meddwl gan y diffynnydd neu'r un dan amheuaeth. Mae'r CPS yn treialu rhestr wirio iechyd meddwl a datblygiad niwrolegol i helpu'r heddlu ac erlynwyr i sicrhau bod y cymorth priodol wedi'i gynnig a bydd yn gwerthuso'r defnydd o'r rhestr wirio er mwyn canfod unrhyw anghenion am hyfforddiant ychwanegol. Yn ogystal â hyn, mae'r CPS wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid iechyd meddwl i drafod meysydd lle mae cysylltiad rhwng cyfiawnder troseddol ac iechyd meddwl a niwroamrywiaeth. Mae'r CPS yn parhau i annog yr holl erlynwyr i wyllo'r podlediadau ar Iechyd Meddwl yn y llys ynadon ac Iechyd Meddwl yn Llys y Goron (a lansiwyd yn Hydref 2021). Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Diffynyddion y CPS, gwnaethom ymrwymiad i adolygu a diweddarau ein canllawiau cyfreithiol ar Ddiffynyddion a Rhai dan Amheuaeth sydd â chyflyrau ac anhwylderau iechyd meddwl. Cyhoeddir y canllawiau wedi'u diweddarau yng ngwanwyn 2023.

**GLITEF**

Bydd ynadon a thimau cyfreithiol yr holl lysoedd ynadon yn derbyn hyfforddiant ar ganllawiau cyffredinol y Cyngor Dedfrydu ar iechyd meddwl. Dechreuir cyflwyno'r hyfforddiant hwnnw o fis Ebrill 2023 ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol ac ynadon, i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024.

Mae timau cyfreithiol llysoedd ynadon mewn nifer o ardaloedd eisoes wedi derbyn hyfforddiant ar ddeddfwriaeth iechyd meddwl neu wedi cael cyflwyniadau/gwybodaeth ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl gan dimau Cyswllt a Dargyfeirio Lleol. Ar gyfer y gweddill, gofynnwyd i wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio ddod i ddigwyddiadau hyfforddi ar y canllawiau dedfrydu i ddarparu gwybodaeth i gynyddu ymwybyddiaeth neu ddarparu deunyddiau o'r fath cyn yr hyfforddiant hwnnw.

**CPS:**  
Dirprwy  
Gyfarwyddwr y  
Gyfarwyddiaeth  
Strategaeth a Pholisi

Wedi'i  
gwblhau

**GLITEF:**  
Dirprwy  
Gyfarwyddwr,  
Gweithrediadau  
Cyfreithiol

Cychwyn yn  
Ebrill 2023

	<p><b>HMPPS</b> Mae Skills for Justice (SfJ) wedi cydgysylltu'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Galluoedd Craidd gyda HMPPS. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y fframwaith ymhlith rhanddeiliaid allweddol yn HMPPS, y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) gyfan ac adrannau Llywodraeth eraill, darparwyr carchardai preifat, sefydliadau perthnasol yn y Trydydd Sector, sefydliadau academaidd, NHS England, Ymddiriedolaethau'r GIG, Undebau ac Awdurdodau Lleol. Disgwylir y bydd y fframwaith yn cael ei fabwysiadu ym Mawrth 2023.</p> <p>Wrth ddatblygu cwricwlwm ar gyfer gweithredu'r fframwaith, ymgwymerwyd ag ymarfer mapio a nodwyd nifer o becynnau hyfforddi yn ymwneud â niwroamrywiaeth, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a diogelu oedolion. Bydd gwaith yn parhau ar ôl cyhoeddi'r fframwaith.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p>	<p>Mawrth 2023</p>	
<p>11</p>	<p>Cydadolygu trefniadau i nodi, asesu a chynorthwyo pobl â salwch meddwl wrth iddynt symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol i sicrhau gwell canlyniadau iechyd meddwl a chytuno ar gynlluniau ar gyfer gwella.</p>	<p>Cytunir</p>	<p>Mae pob Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol lleol yn gwbl gefnogol i'r nod o sicrhau gwell canlyniadau iechyd meddwl drwy nodi, asesu a rhoi cymorth effeithiol i'r rhai hynny yn y system cyfiawnder troseddol sydd â salwch meddwl. Mae nifer o adolygiadau wedi'u cynnal yn ddiweddar yn y maes hwn er mwyn hybu gwelliant, gan gynnwys: adolygiad gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar Iechyd Meddwl ac adolygiad mewnol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i edrych ar iechyd meddwl ar gyfer troseddwr. Comisiynwyd y Ganolfan Iechyd Meddwl gan NHS England and Improvement i wneud dadansoddiad o anghenion pobl sydd yn y carchar.</p> <p>Er mwyn ychwanegu at y wybodaeth hon, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn comisiynu adolygiad i ddarparu dadansoddiad o'r bylchau mewn cynlluniau er mwyn gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiadau hyn a deall a oes mwy y gallwn ei wneud er mwyn nodi, asesu a chynorthwyo'r rhai hynny sydd â salwch meddwl. Cyflawnir y gwaith hwn yn haf 2022. Drwy gydweithio â phartneriaid iechyd, cyfiawnder a phlisma, byddwn yn datblygu Cylch Gorchwyl cadarn sy'n sicrhau y gallwn gynnal y dadansoddiad hwn ar sail systemau cyfan ac yn sicrhau canlyniadau priodol i'r rhai hynny sydd ag anghenion iechyd meddwl ar bob cam yn y system cyfiawnder troseddol.</p>	<p>Haf 2022</p>

		<p>Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i weithredu a bwrw ymlaen â gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys:</p> <p><b>Yr Heddlu</b> Ar hyn o bryd mae'r heddlu'n cefnogi trefniadau partneriaeth er mwyn nodi, asesu a chefnogi pobl sydd â salwch iechyd meddwl wrth iddynt symud drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae darparu gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio yn dangos bod gwaith partneriaeth yn digwydd ar hyn o bryd er mwyn rhoi cefnogaeth i bobl lle mae ei hangen. Rydym yn awr yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad a gomisiynwyd gan y GIG o wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn strategaeth iechyd meddwl ddiwygiedig yr NPCC.</p> <p><b>CPS</b> Bydd yr NPCC a'r CPS yn gweithio ochr yn ochr â'r prosiect Ffeil Achos Ddigidol cenedlaethol er mwyn integreiddio gwybodaeth iechyd meddwl yn y fformat ffeil achos diwygiedig gan sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar reoli achosion yn rhai sy'n seiliedig ar ffeithiau lle gallai iechyd meddwl effeithio ar ganlyniad yr achos. Bydd hyn yn sicrhau bod modd trosglwyddo gwybodaeth iechyd meddwl yn ddirwysr gan yr Heddlu i'r CPS gan wella manylder ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer cyhuddo a phenderfyniadau ehangach ar reoli achosion.</p> <p>Mae'r CPS ar hyn o bryd yn adolygu ei gysylltiadau â gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio lleol. Mae'r adolygiad i gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (2021/22) gyda'r bwriad o ddatblygu model partneriaeth genedlaethol.</p> <p><b>GLITEM</b> Bydd GLITEM yn parhau i gydweithio ag asiantaethau Partneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill fel bod fflagiau iechyd meddwl, yr hysbysir y llys amdanynt, yn cael eu dwyn i sylw'r farnwriaeth ac asiantaethau Partneriaid Cyfiawnder Troseddol yn ystod achosion llys. Bydd GLITEM yn cydweithio â'r NPCC a'r CPS, yn dilyn canlyniad y prosiect Ffeil Achos Ddigidol cenedlaethol, er mwyn ystyried y ffordd orau i wneud hynny.</p>	<p><b>Yr Heddlu/NPCC:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl NPCC</p> <p><b>CPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi</p> <p><b>GLITEM:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gweithrediadau Cyfreithiol</p>	<p>Ebrill 2022</p> <p>Mehefin 2022</p> <p>Mawrth 2022</p> <p>Amseru yn dibynnu ar y prosiect Ffeil Achos Ddigidol cenedlaethol</p>
--	--	---	---	--



		<p><b>HMPPS</b> Bydd HMPPS yn nodi gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl: bydd HMPPS yn ystyried sut y cofnodir gwybodaeth yn gysylltiedig ag iechyd meddwl ar hyn o bryd gan y gwasanaeth Prawf, a gwaith gydag arbenigwyr mewnol ac asiantaethau partneriaid i nodi a chytuno ar gyfleoedd i wella gwybodaeth sy'n dod i'r sefydliad i gefnogi dulliau cyson o nodi anghenion iechyd meddwl.</p> <p>Bydd HMPPS yn adolygu mapiau a chanllawiau prosesau iechyd meddwl Prawf a Mangreoedd a Gymeradwywyd, gan nodi bylchau neu unrhyw ddiweddariadau sydd eu hangen er mwyn cryfhau dulliau adnabod a/neu gefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl; a rhoi cynllun ar waith i ddelio â bylchau.</p> <p><b>Iechyd</b> Mae'r gwaith o weithredu'r Cofnod Hebrwng Cleifion Electronig (EPER) wedi cael ei wneud ac mae hyn yn caniatáu i glinigwyr weld gwybodaeth am risg yn y cam sgrinio wrth dderbyn. Mae NHS England and Improvement a HMPPS wedi cytuno i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â risg rhwng y system rheoli achosion gofal iechyd (SystemOne) a'r system rheoli achosion carchardai (NOMIS). Dechreuodd gwaith datblygu yn gynnar yn 2020 ond cafodd ei ddal yn ôl gan COVID-19. Mae cyllid ac adnoddau HMPPS wedi'u cytuno ac mae cynlluniau ar gyfer dadansoddi'r eitemau data sydd o fewn y cwmpas. Caiff y prosiect ei oruchwylio gan Fwrdd Sicrhau Datblygiad Digidol ar y Cyd NHS England and Improvement a HMPPS. Bydd NHS England and Improvement yn ailddechrau'r gwaith hwn gydag NHS Digital a thîm Digidol MoJ yn chwarter cyntaf 2022/23. Cytunir ar ddyddiad gweithredu newydd ar gyfer integreiddio NOMIS â SystemOne cyn gynted ag y bydd y gwaith wedi ailgychwyn.</p> <p>Bydd NHS England and Improvement yn gwerthuso rhaglenni RECONNECT ac Enhanced Reconnect (ER) (2022-2023). Gan elwa o'r gwersi a ddysgwyd yn ein gwerthusiadau o RECONNECT, ER a'n gwaith yn treialu model gwasanaeth newydd mewn Mangreoedd a Gymeradwywyd, byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o newidiadau mewn gwasanaethau yn y gymuned</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluedd Arfog a SARCau</p>	<p>Medi 2022</p> <p>Medi 2022</p> <p>Cychwyn yn chwarter cyntaf 2022/23</p> <p>Ebrill 2023</p>
--	--	--	---	--

		<p>er mwyn diwallu anghenion troseddwy/cymhleth. Mae'r gwaith hwn i gyd yn amodol ar gyllid.</p> <p>Mae NHS England and Improvement wedi comisiynu'r Ganolfan Iechyd Meddwl i gynnal dadansoddiad o anghenion y rhai sydd mewn carchardai (i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2022) a fydd yn nodi ble mae bylchau yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Bydd canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn sail i ddiweddariad o fanyleb y gwasanaeth, er mwyn teilwra'r ddarpariaeth mewn carchardai yn fwy effeithiol yn unol â'r anghenion a nodwyd.</p> <p>Mae DHSC, HMPPS, MoJ, y Swyddfa Gwella a Gwahaniaethau Iechyd (OHID) ac NHS England and Improvement yn cydweithio er mwyn diweddarau'r Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol yn Lloegr erbyn mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r cwrpas o oedolion mewn carchardai i gynnwys oedolion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Prawf yn y gymuned. Bydd y Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol yn nodi amcanion a blaenoriaethau a rennir, gan amlinellu rhaglen waith er mwyn gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd a helpu i leihau aildroseddu yn ystod y tair blynedd nesaf.</p> <p>Mae NHS England yn casglu data canlyniadau iechyd o'r holl safleoedd Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl gweithredol drwy gasglu Setiau Data Sylfaenol Cenedlaethol yn fisol. Mae hyn yn monitro'r nodweddion gwarchoddedig a pharamedrau cyfiawnder, a hefyd yr ymateb i driniaeth, cyn ac ar ôl triniaeth yn ystod y 12 mis dilynol. Mae'r Rhaglen Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol hefyd yn cael ei gwerthuso'n annibynnol dros gyfnod o dair blynedd ac mae blwyddyn un wedi'i chwblhau yn awr. Mae canlyniadau cadarnhaol yn cael eu dangos yn barod yn y safleoedd a sefydlwyd gyntaf.</p>		<p>Ebrill 2022</p> <p>Ebrill 2022</p> <p>Rhagfyr 2023</p>
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>HMPPS</b> Comisiynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Adolygiad i ddarparu dadansoddiad o fylchau mewn cynlluniau er mwyn gweithredu ar y canfyddiadau o'r adolygiad hwn ac adolygiadau diweddar a deall a oes bylchau yn y ddarpariaeth o gymorth yn y System Cyfiawnder Troseddol i'r rheini sydd â salwch meddwl. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn HMPPS wedi arwain yr</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p>	<p>Mawrth 2023</p>

	<p>adolygiad annibynnol ac mae'r adroddiad i gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2023. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi dod i law, trafodir y canfyddiadau ac unrhyw argymhellion ag asiantaethau partneriaid i ganfod y ffordd fwyaf priodol i ymdrin â nhw.</p> <p><b>Yr Heddlu/NPCC</b> Mae'r NPCC wedi ystyried canfyddiadau'r adolygiad o wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio a gomisiynwyd gan y GIG ac wedi ymgorffori'r rhain yn strategaeth iechyd meddwl ddiwygiedig yr NPCC a gyhoeddwyd yn Hydref 2022.</p> <p>Darperir diweddariadau mewn ymateb i'r canfyddiadau erbyn Mehefin 2023, gan eu bod yn gysylltiedig â'r broses o ddatblygu canllawiau cenedlaethol yr NPCC.</p> <p><b>CPS</b> Mae'r CPS wedi cwblhau adolygiad o gysylltiadau â Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio lleol. Roedd yr adolygiad wedi nodi bod angen gwella a chryfhau cysylltiadau a dulliau rhannu gwybodaeth. Yn dilyn yr adolygiad, rhannwyd manylion cyswllt Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio lleol â staff perthnasol yn y CPS, gyda'r bwriad o drefnu cyfarfodydd â Chomisiynwyr Cyswllt a Dargyfeirio lleol i ymdrin â materion penodol mewn Ardaloedd. Mae'r CPS hefyd wedi hybu ymwybyddiaeth ar draws y Gwasanaeth o Wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio lleol. Yn ogystal â hyn, mae trefniadau wedi'u gwneud i gynnal cyfarfodydd chwarterol â Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio ar lefel genedlaethol. Mae'r trefniadau ar ôl yr adolygiad yn cyfrannu at gyflawni'r amcan ehangach o wella'r ymgysylltu â Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb dros blant, e.e., Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Awdurdodau Lleol, y GIG, Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio er mwyn lleihau oedi wrth ddelio ag achosion a gwella canlyniadau i blant.</p> <p><b>GLITEF</b> Bydd prosiect Ffeil Achos Ddigidol yr heddlu yn newid y broses o gyflwyno ffeiliau achos o fod yn un seiliedig ar ddogfennau i un gwbl ddigidol sy'n defnyddio meysydd data strwythuredig, camau gorfodol ac awtomeiddio. Datblygir y safonau Ffeil Achos Ddigidol ym mhob un o Systemau Rheoli Cofnodion presennol yr heddlu ac yn system CMS y CPS, ac mae'r gwaith ar hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd yr heddluoedd / Ardaloedd CPS cyntaf yn</p>	<p><b>Yr Heddlu/NPCC:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p> <p><b>CPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi</p> <p><b>GLITEF:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gweithrediadau Cyfreithiol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mehefin 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Cychwyn yn Ebrill 2024</p>
--	---	--	---

	<p>ei chyflwyno yn Ebrill 2024, a bydd yn cael ei chyflwyno'n raddol yn yr heddluoedd / Ardaloedd CPS sy'n weddill rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2025.</p> <p><b>HMPPS</b> Cwblhawyd adolygiad o gofnodi cysylltiedig ag iechyd meddwl ar n-Delius. Darparwyd grwpiau ffocws gydag ymarferwyr ledled y wlad a bydd mapiau o brosesau i staff yn cael eu diweddarau yn rhan o weithgarwch busnes fel arfer a fydd yn parhau i edrych ar ddangosfyrddau a chyfrannu i offer asesu newydd.</p> <p>Mae Mangreoedd a Gymeradwywyd wedi cwblhau'r adolygiad o'r model gwasanaeth Iechyd Meddwl mewn Mangreoedd a Gymeradwywyd a oedd yn cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth, arolygon ymysg staff Mangreoedd a Gymeradwywyd, adolygiad o ddwy Fangre a Gymeradwywyd arbenigol, ac adolygu setiau data mewnol ac allanol. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu'n awr at ddylunio a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol gyda chomisiynwyr a phartneriaid lleol.</p> <p><b>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</b> Mae Cytundeb Partneriaeth Genedlaethol newydd wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi ar gyfer comisiynu a darparu gofal iechyd i droseddwyr yn y carchar ac yn y gymuned. Mae'r cytundeb newydd yn cynnwys y flaenoriaeth 'gwella iechyd a lles pobl sydd o dan ein gofal, gan sicrhau asesu a thriniaeth amserol a phriodol yn cynnwys sylw priodol i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig', yn ogystal â blaenoriaeth benodol ar gyfer 'gwella'r canlyniadau iechyd meddwl i bobl sydd o dan ein gofal drwy weithredu safonau a llwybrau seiliedig ar dystiolaeth yn ôl anghenion penodol y boblogaeth a'r unigolyn'. Bydd y gweithgarwch a'r cynnydd ar hyn yn cael eu monitro a'u hyrwyddo gan y Bwrdd Cyflawni Gweithredol Cenedlaethol ar Iechyd a Chyfiawnder.</p> <p><b>NHS England/HMPPS</b> Bydd MoJ Digital ac NHS Digital yn adolygu ac yn ailgwmpasu hyn am fod y system gwybodaeth iechyd a chyfiawnder (HJIS), sef SystemOne ar hyn o bryd, ar fin cael ei hailgaffael, ac am fod NOMIS yn cael ei datgomisiynu. Mae HMPPS yn mabwysiadu'r Digital Prison System (DPS) yn lle NOMIS. Disgwylir y bydd y gwasanaethau sy'n disodli NOMIS yn darparu mwy o allu i integreiddio, a gallai hyn gynnig cyfle i gydweithio a rhannu data yn well yn y maes hwn yn y dyfodol. Disgwylir integreiddio â'r DPS o 2024 ymlaen.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd</p> <p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau <b>HMPPS:</b></p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>2024 ymlaen</p>
--	---	---	--

	<p><b>NHS England</b> Mae NHS England wedi cydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) i gomisiynu gwerthusiadau o RECONNECT ac Enhanced RECONNECT (ER). Penodwyd y cynigydd llwyddiannus am y gwerthusiad o RECONNECT yn Ionawr 2023, ac mae'r broses ar gyfer penodi tîm gwerthuso ar gyfer ER i gael ei chwblhau yn Ionawr 2023.</p> <p>Mae dau safle ER wedi'u cymeradwyo ac wedi dechrau gweithredu yn Rhagfyr 2022, ac mae un safle ar gam yr achos busnes.</p> <p>Mae mwy na 50% o ardaloedd Lloegr yn cael gwasanaeth RECONNECT bellach ac mae disgwyl i'r broses o'i gyflwyno ledled Lloegr gael ei chwblhau erbyn Mawrth 2024.</p> <p>Mae adroddiad y Ganolfan Iechyd Meddwl (CfMH) wedi'i gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi bellach ac wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli Iechyd a Chyfiawnder. Cyhoeddir yr adroddiad ym Mawrth 2023.</p> <p>Mae'r diweddariad o Fanyleb y Gwasanaeth Iechyd Meddwl wedi cael ei gylchredeg er mwyn gwirio ei ystyr a'i adolygu. Mae sylwadau'n cael eu hasesu ar hyn o bryd. Mae i gael ei chyhoeddi yn Ebrill 2023.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Digidol Carchardai</p> <p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau</p>	<p>Rhagfyr 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mawrth 2023</p> <p>Mawrth 2023</p> <p>Ebrill 2023</p>
--	--	---	--

**Dylai Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol:**

12	Cytuno, cynhyrchu a dadansoddi setiau data traws-system i lywio penderfyniadau comisiynu ac i hyrwyddo gweithio ar y cyd.	Ni Chytunir	<p>Nid yw Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn Lloegr yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl ac nid yw eu haelodaeth yn cynnwys comisiynwyr gwasanaethau iechyd meddwl. O ganlyniad, nid ydym yn cytuno â'r argymhelliad fel y mae wedi'i ysgrifennu a'i gyfeirio.</p> <p>Er hyn, mae partneriaid Iechyd a Chyfiawnder wedi ymrwymo i hybu rhagor o gydweithio yn y maes hwn, gan gynnwys:</p>		
----	---	-------------	--	--	--

- Er mwyn gwella ein dealltwriaeth o anghenion iechyd troseddwr, rydym yn cysylltu nifer o setiau data wedi'u hanonymeiddio a gedwir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder â newidynnau a gafwyd gan NHS England fel rhan o'r prosiect Data yn Gyntaf, gyda chynllun i ddadansoddi unrhyw ddata cysylltiedig yn 2023. Bydd yr ymarfer cysylltu hwn wedi'i gyfyngu i ddechrau i setiau data yn ymwneud ag unigolion â diagnosisu o gyflyrau iechyd meddwl y gellir eu paru ar draws systemau gwybodaeth reoli.
- Drwy ddeall a chyfrannu at Systemau Gofal Integredig (ICS) wrth i'r Byrddau a'r Partneriaethau eu cyflwyno o fis Ebrill 2022 ymlaen. Rydym yn cydnabod y bydd Systemau Gofal Integredig yn cyflawni rolau newydd pwysig wrth gomisiynu gwasanaethau iechyd ac wrth sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cymunedau lleol, gan gynnwys oedolion sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder. Er mwyn hybu cydweithio yn y meysydd hyn, bydd HMPPS yn gweithio gyda chydweithwyr yn DHSC i ddatblygu a chyflwyno sesiynau briffio i ranbarthau Prawf erbyn haf 2022, i'w helpu i gymryd rhan mewn Partneriaethau Gofal Integredig.
- Yn ychwanegol at hyn, bydd HMPPS yn ategu'r pwysigrwydd o gynnwys partneriaid Cyfiawnder ac ystyried anghenion poblogaethau sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder yng ngwaith eu Byrddau Gofal Integredig a Phartneriaethau Gofal Integredig.

Dim ond pum carchar sector cyhoeddus sydd yng Nghymru, felly gofynnir i'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol perthnasol sy'n darparu ar gyfer y Carchardai hynny gadarnhau bod Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai wedi gwneud trefniadau lleol. Er hyn, nid oes gan Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai swyddogaeth gomisiynu uniongyrchol.

	<p><b>Cynnydd ar yr ymrwymiadau (Mawrth 2023)</b></p> <p><b>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</b>  Nid yw tîm cysylltu data Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ac External Shares wedi gallu gwneud cynnydd ar waith i gysylltu nifer o setiau data wedi'u hanonymieiddio sy'n cael eu dal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder â setiau data sy'n cael eu dal gan NHS England, wrth ganolbwyntio i ddechrau ar unigolion a gafodd ddiagnosis o gyflyrau iechyd meddwl y gellir eu paru ar draws systemau gwybodaeth reoli. Mae hyn yn ganlyniad i heriau a wynebwyd wrth geisio canfod porth addas i rannu data ag NHS Digital. Byddwn yn parhau i chwilio am opsiynau eraill gydag NHS Digital ac OHID.</p> <p><b>HMPPS</b>  Mae'r pwys a roddwyd ar gynnwys partneriaid Cyfiawnder a dylanwadu ar Systemau Gofal Integredig (ICS) a Byrddau Gofal Integredig (ICBs) er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth wedi'i chynrychioli mewn gwasanaethau cymunedol yn cael ei ddangos yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan DHSC "ICP Engagement Document", (Medi 2021). <a href="https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/100000/integrated_care_partnership_icp_engagement_document_-_gov.uk">Integrated care partnership (ICP) engagement document - GOV.UK (www.gov.uk)</a> Cyflawnir hyn drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgysylltu drwy'r dull Core 20 Plus 5 drwy Fyrddau Partneriaeth Iechyd a Chyfiawnder Rhanbarthol a thimau comisiynu Iechyd a Chyfiawnder rhanbarthol NHS England er mwyn dylanwadu a chyfrannu at flaenoriaethau strategol ICS/ICB.</li> <li>• Mae cynllun gwaith y Cytundeb Partneriaeth Genedlaethol yn cynnwys ymrwymiad partneriaeth ychwanegol i ddylanwadu ar ICS ac ICBs er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth wedi'i chynrychioli mewn gwasanaethau cymunedol ac er mwyn canfod cyfleoedd i gefnogi mynediad cyfatebol i bobl sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth Prawf. Mae'r Bwrdd Cyflawni Gweithredol Cenedlaethol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfiawnder yn atebol am sicrhau cynnydd ar y gweithgarwch hwn o dan y Cytundeb Partneriaeth Genedlaethol.</li> </ul>	<p><b>Pennaeth Cysylltu Data:</b>  Tîm Cysylltu Data Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ac External Shares</p> <p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>		
13	Sicrhau bod asesiadau iechyd meddwl Cyswllt a Dargyfeirio a wneir yn nalfa'r heddlu yn cael	Cytunir yn Rhannol	Cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn ar y sail bod asesiadau Cyswllt a Dargyfeirio yn ddarpariaeth wedi'i chomisiynu gan y GIG ac y bydd yr ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig a fydd yn eu gwneud yn cael	<b>Yr Heddlu:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd	

<p>eu darparu i Wasanaeth Eryl y Goron a chyfreithwyr amddiffyn i helpu i lywio penderfyniadau cyhuddo, sylwadau ar gyfer penderfyniadau dargyfeirio a dedfrydu.</p>		<p>gwybodaeth feddygol gyfrinachol yn ystod yr asesiad. O ganlyniad, mae hyn yn dod o dan ofynion 'prosesu sensitif' y Ddeddf Diogelu Data (2018) a bydd cyfyngiadau ar ddarparu rhai rhannau o'r asesiad Cyswllt a Dargyfeirio i'r CPS, Llysoedd a'r Amddiffyniad.</p> <p>Yn ychwanegol at hyn, mae darparu deunydd a gyflenwir gan yr heddlu i'r CPS yn cael ei reoli gan y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol (1996) sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y ffordd y dylai deunydd sydd ym meddiant yr heddlu gael ei gadw, ei adolygu a'i ddatgelu.</p> <p>I gefnogi'r argymhelliad hwn, bydd yr NPCC, ac NHS England yn cymryd rhan mewn adolygiad o brosesau rhannu gwybodaeth lleol (yn unol ag Argymhelliad 4). Yr amcan wrth wneud hyn fydd ceisio dileu unrhyw rwystrau a nodir sy'n atal rhannu asesiadau Cyswllt a Dargyfeirio lle mae sail gyfreithiol glir dros wneud hynny a'i fod yn gyson â chanllawiau'r Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol.</p> <p>Bydd yr NPCC ac NHS England yn cefnogi'r safbwynt bod gwybodaeth a geir o'r asesiadau Cyswllt a Dargyfeirio yn nalfa'r heddlu ar iechyd meddwl unigolyn i gael ei darparu mewn fformat y gellir ei ddatgelu, ac yn brydlon er mwyn cynorthwyo partneriaid Cyfiawnder Troseddol i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag opsiynau cyhuddo, dargyfeirio a dedfrydu lle mae sail gyfreithiol dros ei rhannu. Bydd cynnydd ar yr argymhelliad hwn yn cael ei fonitro drwy'r Cyfarfodydd Rheoli Achosion Rhanbarthol a Chenedlaethol (yr Heddlu a'r CPS), a grwpiau defnyddwyr Llysoedd.</p>	<p>Iechyd Meddwl yr NPCC</p> <p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau</p>	<p>Mehafin 2022</p>
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>Yr Heddlu</b> Mae'r NPCC wedi cefnogi'r argymhelliad hwn drwy gydweithio â'r prosiect ffeil achos ddigidol ar gynnwys maes penodol ar iechyd meddwl er mwyn cael mwy o allu i ganfod ble mae iechyd meddwl yn fater i'w ystyried gan y CPS a'r Llysoedd. Mae hyn yn sicrhau bellach fod lle penodol yn y ffeil achos i rannu'r wybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio am y carcharor â phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol ehangach. Nid oedd maes penodol o'r fath yn y fformatiau ffeil achos a oedd ar gael fel bod problemau wedi codi o'r blaen wrth dynnu sylw at faterion iechyd meddwl.</p>	<p><b>Yr Heddlu:</b> Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p>	<p>Weddi gwblhau</p>



	<p>Bydd yr NPCC yn parhau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr Cyswllt a Dargyfeirio i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael ochr yn ochr â gwasanaethau gofal iechyd yn y ddalfa drwy adolygu manyleb y gwasanaeth. Mae Strategaeth Iechyd Meddwl yr NPCC (2022 – 2025) yn nodi bod gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio yn chwarae rhan hanfodol wrth ganfod materion / gwendidau iechyd meddwl yn gynnar mewn prosesau cyfiawnder troseddol ac mae o blaid parhau i'w cynnwys.</p> <p><b>NHS England</b> Mae gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio NHS England yn cael mynediad uniongyrchol at holl systemau TG yr Heddlu a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd ddiogel ac amserol. Ym Mai 2022, cyhoeddodd NHS England a HMPPS Ddatganiad ar y Cyd ar Egwyddorion ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio a HMPPS, a chafodd ei lansio mewn gweithdy cenedlaethol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2022.</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
--	---	---	-----------------------

#### Dylai Gwasanaeth yr Heddlu:

14	<p>Sicrhau bod yr holl staff ymchwilio penodedig yn derbyn hyfforddiant ar fregusrwydd sy'n cynnwys mewnbynnau ar ymateb i anghenion pobl dan amheuaeth sy'n agored i niwed (yn ogystal â dioddefwyr). Dylid ymgorffori hyn mewn cyrsiau hyfforddi ditectifs.</p>	<p>Cytunir</p>	<p>Mae hyfforddiant pwrpasol ar fregusrwydd yn rhan o faes llafur hyfforddiant cenedlaethol – 'Professionalising Investigation Programme' (PIP) Lefel 1 – 4, sydd wedi cael ei bennu a'i gymeradwyo gan y Coleg Plismona.</p> <p>Bydd yr NPCC yn cydweithio â'r Coleg Plismona i benderfynu a oes angen adolygu'r maes llafur hyfforddiant PIP Cenedlaethol o ran ei fewnbwn ar fregusrwydd ar bob lefel PIP.</p>	<p>Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p>	<p>Ionawr 2023</p>
	<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p>		<p>Mae'r NPCC wedi cefnogi'r argymhelliad hwn drwy gydweithio â'r Coleg Plismona i gynyddu'r nifer mewn rolau ymchwilio penodedig sy'n derbyn y ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant Iechyd Meddwl. Mae'r pecyn hyfforddi wedi'i fwriadu i hybu ymwybyddiaeth o anhwylderau iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, a dulliau'r heddlu o ymateb i faterion iechyd meddwl. Mae'r</p>	<p>Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

			<p>NPCC wedi gofyn i heddluoedd ystyried ei gwneud yn orfodol bod ymchwilyr, staff dalfeydd a'r rheini mewn rolau cyfiawnder troseddol penodol yn dilyn yr hyfforddiant hwn.</p> <p>Mae'r NPCC wedi ymgynghori â'r Coleg Plismona ar y maes hyfforddi PIP (Professionalising Investigation Programme) i ymchwilyr. Mae hwn yn ddull haenog o ddarparu hyfforddiant i ymchwilyr ac mae'r Coleg Plismona wedi cadarnhau bod hyfforddiant digonol ar fregusrwydd wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant cychwynnol i recriwtiaid a lefelau graddedig y broses PIP. Parheir i ddarparu'r mewnbwn hyfforddi hwn i ymchwilyr.</p>		
15	<p>Samplu achosion (cod canlyniad) OC10 ac OC12 er mwyn asesu safon a chysondeb y broses gwneud penderfyniadau a defnyddio hyn i bennu unrhyw ofynion briffio neu hyfforddi a'r angen am unrhyw oruchwyliaeth barhaus.</p>	<p>Cytunir yn Rhannol</p>	<p>Cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn gan fod rheoli perfformiad a chydymffurfiaeth yn fater i heddluoedd unigol ac ni all yr NPCC ei wneud yn orfodol.</p> <p>I gefnogi'r argymhelliad hwn, bydd yr NPCC yn tynnu sylw at yr angen i heddluoedd adolygu eu defnydd o godau canlyniad OC10 ac OC12 fel penderfyniadau priodol mewn ymchwiliadau troseddol. Gofynnir i heddluoedd ystyried craffu ar y defnydd o'r codau canlyniad yn eu strwythurau rheoli perfformiad presennol gan sicrhau defnydd cyson ym mhob achos.</p> <p>Bydd yr NPCC a'r Coleg Plismona yn casglu adborth am unrhyw ofynion am hyfforddiant a chanllawiau sy'n deillio o ganfyddiadau'r heddluoedd yn chwarterol drwy gyfarfod y Fforwm Cenedlaethol. Caiff canllawiau a hyfforddiant eu diweddarau yn ôl y galw.</p>	<p>Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p>	<p>Ebrill 2022</p>
			<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p>Mae'r NPCC wedi darparu cyngor i heddluoedd y dylent fonitro'r defnydd o godau canlyniad OC10 ac OC12 i ganfod tueddiadau mewn penderfyniadau ar achosion. Mae gan bob heddlu ei fframwaith rheoli perfformiad ei hun ar gyfer ystyried a yw hyn yn fater penodol sy'n galw am ddadansoddi pellach a monitro perfformiad.</p> <p>Drwy gynnwys maes penodol ar gyfer iechyd meddwl yn y ffeil achos ddigidol, bydd modd casglu rhagor o ddata hefyd am y canlyniadau yn yr achosion hynny ar sail y cod canlyniad priodol.</p>	<p>Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

			<p>Mae Strategaeth Iechyd Meddwl ddiwygiedig yr NPCC (2022-2025) yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer prosesau cyfiawnder troseddol mewn perthynas ag iechyd meddwl, yn cynnwys monitro canlyniadau achosion lle mae cysylltiad ag iechyd meddwl. Bydd yr NPCC yn parhau i weithio ochr yn ochr â HMICFRS ar ei system arolygu er mwyn rheoli achosion lle ceir bregusrwydd a nodi canlyniadau i achosion i'w hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol, yn enwedig y defnydd o'r codau canlyniad hyn.</p>		
16	Adolygu argaeledd, mynychder a soffistigedigrwydd y dulliau o fflagio iechyd meddwl, i wella hyn lle bo hynny'n bosibl, ac i ystyried pa ddata ystyrlon a defnyddiadwy y gallir eu cynhyrchu drwy hyn.	Cytunir	<p>Bydd yr NPCC yn gofyn i heddluoedd adolygu effeithiolrwydd eu defnydd o fflagiau Iechyd Meddwl, er mwyn ystyried sut y gallir gwella fflagio iechyd meddwl i gyfrannu at benderfyniadau drwy ddadansoddi data a gwella dulliau rheoli risg. Cynhelir gwerthusiad o'r arferion gorau sy'n dod i'r amlwg a chânt eu rhannu ar draws y gwasanaeth yr heddlu.</p> <p>Bydd yr NPCC yn gofyn i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) roi ystyriaeth benodol i hyn, gan gynnwys defnydd yr heddluoedd o ddulliau fflagio iechyd meddwl fel rhan o'u trefniadau parhaus ar gyfer bregusrwydd ac arolygu dalfeydd er mwyn darparu proses graffu annibynnol.</p>	Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC	Ionawr 2023
			<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p>Mae'r NPCC wedi adolygu effeithiolrwydd eu defnydd o fflagiau Iechyd Meddwl ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn gysyniad sy'n hen ffasiwn ac yn frith o broblemau o ran ansawdd a llywodraethu data.</p> <p>Mewn ymateb i'r adolygiad er mwyn gwella'r dull o gofnodi data iechyd meddwl, bydd yr NPCC yn cwblhau'r canlynol erbyn Mehefin 2023 yng nghyswllt gwaith ar ddatblygu canllawiau cenedlaethol:</p> <p>Wrth lansio Strategaeth Iechyd Meddwl yr NPCC ac yn rhan o'r amcan penodol ar Reoli Data a Gwybodaeth, rydym wedi dechrau pennu sut y gallir casglu data am iechyd meddwl yn y dyfodol yng ngwahanol systemau'r heddluoedd. Gan nad oes system TG genedlaethol benodol ar gyfer rheoli cysylltiadau â'r heddlu a chofnodion heddlu, rydym yn wynebu'r angen i ddatblygu set ddata i'w chyflwyno drwy wahanol dechnolegau ac mewn gwahanol strwythurau rhanbarthol.</p>	Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC	Wedi'i gwblhau  Mehefin 2023

			Carreg filltir allweddol fydd cytuno ar set ddata sy'n sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng y data a gesglir a'r adnoddau sydd eu hangen i'w casglu. Mae rhai heddluoedd wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn ymateb i'r argymhelliad hwn drwy wella eu set ddata iechyd meddwl eu hunain a bydd yr NPCC yn hyrwyddo ac yn rhannu eu dulliau o weithredu fel arferion da i sicrhau cysondeb.		
17	Sicrhau eu hunain bod risgiau a gwendidau yn cael eu nodi'n briodol yn ystod prosesau asesu risg, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n dod i orsaf yr heddlu o'u gwirfodd. Rhaid iddynt sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol, gan gynnwys atgyfeiriadau at Bartneriaid Gofal Iechyd a gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio a rhaid iddynt ddefnyddio oedolion priodol.	Cytunir	<p>Mae hwn yn fesur a gytunwyd sy'n rhan o'r broses asesu risg ac ymwybyddiaeth o bobl agored i niwed ar gyfer y rheini sy'n delio â phobl sy'n dod i orsaf yr heddlu, gan gynnwys pobl sy'n dod yno o'u gwirfodd.</p> <p>Bydd yr NPCC yn gofyn i heddluoedd adolygu eu polisïau yn ymwneud â 'phresenoldeb gwirfoddol' a sicrhau bod prosesau asesu risg yn addas i'r diben. Bydd trefniadau partneriaeth lleol parhaus yn sicrhau bod llwybrau atgyfeirio ar gael i bobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ac wrth iddynt gael eu rhyddhau drwy'r broses rheoli risg ar ôl rhyddhau.</p>	Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC	Mehafin 2022
			<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p>Ffurfiwyd cysylltiadau â phortffolio Dalfeydd yr NPCC a rhoddwyd cyngor i heddluoedd ynghylch y sail dros yr argymhelliad hwn. Mae heddluoedd yn rhoi sylw i hyn yn awr drwy eu dull o asesu risg ar gyfer y rheini sy'n dod i orsaf yr heddlu o'u gwirfodd, gan sicrhau bod proses wedi'i chynnwys ar gyfer atgyfeirio i gael cymorth a bod gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio / Gofal Iechyd yn cymryd rhan lle bo'n briodol.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mewn rhai mathau penodol o ymchwiliad (e.e., ymchwilio i droseddau rhyw yn ymwneud â phlant), mae hyn wedi arwain at roddi dogfennau atgyfeirio i'r un sydd wedi'i gadw'n gaeth fel mater o drefn. Bydd hyn o gymorth lle mae iechyd meddwl yr unigolyn yn dirywio yn dilyn cyswllt â'r heddlu drwy ei alluogi i gael gafaal ar ddeunydd cymorth perthnasol. Nid oes darpariaeth gyffredinol o wasanaethau cymorth ledled Cymru a Lloegr. Nid yw'r ddarpariaeth o wasanaethau o dan reolaeth heddluoedd ychwaith er</p>	Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC	Wedi'i gwblhau

			<p>ein bod yn parhau i hyrwyddo darpariaeth gan sefydliadau (gofal iechyd/trydydd sector) drwy'r strwythurau llywodraethu rhanbarthol.</p> <p>Gyda golwg ar droseddwy'r a reolir (e.e., y rheini sy'n dod o dan ddarpariaethau MAPPA), mae'r NPCC wedi cydweithio â'r Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd i lunio canllaw i swyddogion ar reoli troseddwy'r sydd ag anhwylderau iechyd meddwl. Mae hyn yn cefnogi'r argymhelliad hwn drwy wella'r dull o reoli risg ar gyfer y grŵp hwn o droseddwy'r sy'n peri risgiau penodol i ddiodefwyr a'r gymuned.</p>		
18	Dylai arweinwyr heddluoedd adolygu ffurflenni MG (canllawiau rheoli) i sicrhau eu bod yn cynnwys ysgogiadau neu adrannau pwrpasol ar gyfer nodi bregusrwydd unigolion sydd o dan amheuaeth.	Cytunir	<p>Mae'r prosiect 'Ffeil Achos Ddigidol' cenedlaethol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer yr argymhelliad hwn pan fydd y system yn cael ei chyflwyno i'r heddluoedd. Bydd maes penodol (gorfodol) yn y ffeil achos ddigidol a fydd yn gofyn i'r swyddog gadarnhau a yw lechyd Meddwl yn ffactor yn yr achos. Os yw, bydd yn agor meysydd ychwanegol ar y ffurflen i'r ymchwilydd roi gwybodaeth ynddynt a chaiff y wybodaeth hon ei gweld gan yr erlynydd pan fydd yn derbyn ffeil achos.</p>	Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC	Ionawr 2023
			<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p>Mae'r prosiect 'Ffeil Achos Ddigidol' cenedlaethol eisoes wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer nodi iechyd meddwl yn fformat y ffeil achos newydd (yn lle'r llawlyfr o ffurflenni canllaw y mae'r argymhelliad hwn yn cyfeirio ato) ar gyfer yr un sydd dan amheuaeth a'r diodefwyr/tystion er mwyn cefnogi'r argymhelliad hwn. Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer nodi iechyd meddwl yn y ffeil achos yn fater sydd ar wahân i ystyriaethau o ran fflagio iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â systemau'r heddlu ar gyfer cofnodi digwyddiadau, cudd-wybodaeth a throseddau y cyfeiriwyd atynt yn argymhelliad 16.</p> <p>Mae'r gwaith yn parhau ar baratoi'r prosiect Ffeil Achos Ddigidol ar gyfer ei dreialu mewn heddluoedd yn 2023 cyn ei gyflwyno ar lefel genedlaethol. Wynebwyd nifer o rwystrau technegol wrth dreialu a gweithredu, ond credir y bydd y gwaith hwn, a gyflawnir ar lefel genedlaethol, yn ymateb i'r argymhelliad hwn.</p>	Dirprwy Brif Gwnstabl, Arweinydd Iechyd Meddwl yr NPCC	Wedi'i gwblhau

	Mae dynodydd Iechyd Meddwl yn rhan o'r ffeil achos ddigidol a bydd yr ymchwilydd yn gallu ei ddefnyddio i ddangos yn glir fod Iechyd Meddwl yn ystyriaeth berthnasol. Mae'n darparu maes ar gyfer naratif i amlinellu'r materion y gall fod angen i bartneriaid cyfiawnder eu hystyried ymhellach.		
--	--	--	--

### Dylai'r Gwasanaeth Prawf:

19	Adolygu ei ganllaw ar fflagiau Iechyd Meddwl i helpu ymarferwyr prawf i ganfod a chofnodi anghenion Iechyd Meddwl unigolion yn gywir (o fewn chwe mis).	Cytunir	<p>Bydd y Gwasanaeth Prawf yn adolygu'r canllawiau presennol ar y fflagiau ar y system rheoli achosion (nDelius) a meysydd casglu data am amgylchiadau personol ac yn eu diweddarau yn unol â hynny drwy ein grŵp Data Iechyd. Yn ychwanegol at hyn, ystyrir unrhyw faterion yn gysylltiedig â'r System Asesu Troseddwy (OASys) y gallai fod angen eu hadolygu hefyd.</p> <p>Caiff y canllawiau eu cwblhau o fewn chwe mis a rhoddir gwybod amdanynt drwy lwybrau cyfathrebu sefydledig, e.e. cyfarfodydd chwarterol arweinwyr Iechyd a Probation News (cylchlythyr i'r holl staff Prawf). Bydd y grŵp data yn ystyried y wybodaeth reoli bresennol sydd ar gael a'i haddaswydd ar gyfer gwella trefniadau monitro yn y maes hwn, gan nodi a gwneud cynnydd ar feysydd i'w gwella a hysbysu'r Gweithgor Iechyd Meddwl aml-asiantaeth am gynnydd.</p>	Cyfarwyddwr Rhanbarthol Prawf â Phortffolio Thematig Iechyd	Awst 2022
			<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p>Cwblhawyd adolygiad o'r fflagiau perthnasol yn n-Delius ar y cyd â phartneriaid ac ymarferwyr Iechyd. Cytunwyd ar y newidiadau sydd eu hangen mewn systemau er mwyn casglu a chofnodi gwybodaeth ac rydym yn rhag-weld y bydd y newidiadau wedi'u cynnwys yn n-Delius erbyn Ebrill 2023 ac y bydd hyn yn mynd law yn llaw â darparu diweddariad o'r canllawiau i staff.</p>	Cyfarwyddwr Rhanbarthol Prawf â Phortffolio Thematig Iechyd	Ebrill 2023
20	Gwella ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu i sicrhau eu bod yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o drawma, anghenion Iechyd Meddwl a, lle bo'n fuddiol,	Cytunir	Bydd y Gwasanaeth Prawf yn adolygu ac yn diweddarau canllawiau i'r rhai sy'n ysgrifennu Adroddiadau Cyn Dedfrydu. Bydd hyn yn gydnaws â gwaith a wnaethpwyd gan y rhaglen ehangu Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl a bydd yn ategu'r gwaith hwnnw.	Cyfarwyddwr Rhanbarthol Prawf â Phortffolio Thematig Iechyd	Rhagfyr 2022

	cynigion ar gyfer triniaeth briodol.		Drwy gydweithio â chydweithwyr lechyd a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill, bydd y Gwasanaeth Prawf yn parhau i gyflwyno'r rhaglen ehangu Gofyniad Triniaeth lechyd Meddwl yn unol â thargedau Llywodraeth, er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddarparu triniaeth.		
			<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p>Mae'r canllawiau ar y Gofyniad Triniaeth lechyd Meddwl wedi cael eu diweddarau ar gyfer y rhai sy'n ysgrifennu Adroddiadau Cyn Dedfrydu a dedfrydwyr.</p> <p>Mae HMPPS yn parhau i gydweithio â chydweithwyr lechyd a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i gyflwyno'r rhaglen ehangu. Mae'r rhaglen ehangu yn parhau i weithredu yn ôl yr amserlen.</p>	Cyfarwyddwr Rhanbarthol Prawf â Phortffolio Thematig lechyd	Wedi'i gwblhau
21	Cydweithio â'r GIG a GLITEM i gynyddu'r defnydd o Ofynion Triniaeth lechyd Meddwl ledled Cymru a Lloegr.	Cytunir	<p>Drwy'r Bartneriaeth Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR), mae Partneriaid lechyd a Chyfiawnder yn cydweithio i sicrhau bod mwy o ddefnydd o ofynion triniaeth iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau fel rhan o ddedfrydau cymunedol. Ar hyn o bryd mae rhaglen Gofynion Triniaeth lechyd Meddwl (MHTR) NHS England and Improvement ar y trywydd iawn i gyflawni ei huchelgais o sicrhau bod darpariaeth MHTR gofal sylfaenol ar gael yn 50% o ardaloedd Lloegr erbyn 2023, yn cael ei hariannu dan gynllun hirdymor y GIG.</p> <p>Fel rhan o waith sy'n cael ei wneud er mwyn cynyddu'r defnydd o Ofynion Triniaeth lechyd Meddwl, bydd y Gwasanaeth Prawf yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu a diweddarau'r canllawiau ymarfer presennol ar ofynion MHTR eilaidd (busnes fel arfer) ac yn eu hyrwyddo ymhlith Timau Llysoedd a Rheolwyr Dedfrydu yng Nghymru a Lloegr</li> <li>• Cydweithio â Chomisiynwyr lechyd a phartneriaid eraill i gyflwyno gofynion MHTR sylfaenol yn unol â chynllun 2022 y cytunwyd arno â'r Uwch-farnwr Llywyddol. Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd lleol, ac ar sail y cynllun treialu MHTR yn Abertawe, byddwn yn ceisio cyflwyno modelau tebyg ledled Cymru.</li> <li>• Hyrwyddo gofynion MHTR ymhlith dedfrydwyr a defnyddwyr llys eraill, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol am gyflwyno safleoedd MHTR sylfaenol fel y bo'n briodol yng Nghymru a Lloegr.</li> </ul>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr lechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCAu</p> <p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>DHSC:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr lechyd Meddwl ac lechyd Troseddwyr</p> <p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr</p>	<p>Mai 2022</p> <p>Medi 2022</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddaru'r Fframwaith Ymarfer Effeithiol (EPF1) a'r canllawiau ymarfer manwl drwy system ar-lein EQUIP (Excellence and Quality in Process), yn ôl y galw.</li> <li>• Monitro cynnydd yn y ddarpariaeth MHTR. Rhannu'r arferion gorau a gwersi a ddysgwyd â safleoedd cyflwyno MHTR sylfaenol fel y maent yn dod yn weithredol yng Nghymru a Lloegr.</li> <li>• Parhau i ymgysylltu â'r rhaglen gwerthuso ymchwil.</li> <li>• Diweddaru strwythur Llywodraethu CSTR yn unol â'r model Llywodraethu Iechyd Interim y cytunwyd arno.</li> </ul>	<p>Benywaidd ac Iechyd, MoJ</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>NHS England</b> Sicrhodd y rhaglen Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR) fod darpariaeth ar gael i 50% o Lysoedd Troseddol Lloegr a 50% o boblogaeth Lloegr ym mis Tachwedd 2022. Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i sicrhau darpariaeth lawn erbyn canol 2024.</p> <p><b>HMPPS</b> Mae'r canllawiau ar MHTR wedi cael eu diweddaru ar gyfer y rheini sy'n ysgrifennu Adroddiadau Cyn Dedfrydu a dedfrydwyr. Mae mapiau'r broses MHTR ar y system ar-lein EQUIP (Excellence and Quality in Process) wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru.</p> <p>Mae HMPPS yn parhau i gydweithio â chydweithwyr Iechyd a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i gyflwyno'r rhaglen ehangu MHTR. Mae'r rhaglen ehangu yn parhau i weithredu yn ôl yr amserlen.</p> <p><b>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</b> Cyflwynwyd trefniadau cydlywodraethu newydd ar gyfer y Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR) ym mis Tachwedd 2021 yn ogystal â Bwrdd Partneriaeth Strategol wedi'i gydgadeirio gan yr MoJ a DHSC a Grŵp Cyflawni</p>	<p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCAu</p> <p><b>HMPPS:</b> Cyfarwyddwr Rhanbarthol Prawf â Phortffolio Thematig Iechyd</p> <p><b>Polisi MoJ:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Troseddwyr</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>



	<p>Gweithredol sy'n cwrdd yn fisol ac yn cael ei gydgadeirio gan NHSE, HMPPS ac OHID.</p> <p>Mae dadansoddwyr yr MoJ yn cynhyrchu dangosfwrdd data misol i fonitro lefelau gweithgarwch a thueddiadau yn y defnydd o Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol, yn cynnwys Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl. Mae hwn yn cael ei rannu ag asiantaethau partneriaid a'i drafod yn y Grŵp Cyflawni Gweithredol.</p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b> Mae'r MoJ yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd perthnasol yng Nghymru ynghylch y rhaglen beilot Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR) a'r dysgu sy'n gysylltiedig.</p>	<p>Benywaidd ac Iechyd, MoJ</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd Meddwl, Camdefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Yn mynd rhagddo</p>
--	--	---	--

**Dylai Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi gydweithio ag NHS England and Improvement a Llywodraeth Cymru er mwyn:**

22.	<p>Mynd i'r afael â'r rhestrau aros hir a achoswyd gan y pandemig COVID-19, gan gynnwys y rheini ar gyfer asesiadau iechyd meddwl, triniaeth seicolegol, cwnsela a gwaith grŵp therapiwtig.</p>	Cytunir	<p>Mae HMPPS, NHS England a'r GIG yng Nghymru yn cydnabod bod achosion o COVID-19 a chyfyngiadau angenrheidiol mewn carchardai a gwasanaethau cymunedol wedi effeithio ar weithgareddau iechyd a lles arferol, ac mae hyn yn ganolog i gynlluniau carchardai ac iechyd ar gyfer adferiad.</p> <p>Mae Llywodraethwyr Carchardai a darparwyr iechyd eisoes yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau dull partneriaeth o alluogi a darparu gwasanaethau iechyd mewn sefydliadau. Drwy fyRDDau cyflawni lleol, bydd Llywodraethwyr a darparwyr iechyd yn parhau i adolygu amseroedd aros fel rhan o gynlluniau adfer partneriaethau lleol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effeithiau COVID ar wasanaethau lleol yn y carchar a'r gymuned. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n gyson ar lefel lleol a byddwn yn ailasesu'r sefyllfa mewn cysylltiad â statws y pandemig COVID-19.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCAu</p>	Ebrill 2023
-----	---	---------	---	--	-------------

		<p>Cafodd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru eu dynodi'n wasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig ac maent wedi parhau'n hygyrch – ond mae amseroedd aros wedi cael eu heffeithio. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r byrddau iechyd ac yn eu cefnogi ag adnoddau ychwanegol fel rhan o'r adferiad er mwyn iddynt allu mynd i'r afael ag amseroedd aros. Bydd Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn ystyried unrhyw ddata y gellir eu darparu sy'n dangos oedi wrth geisio cael mynediad at wasanaethau. Mae hyn yng nghyd-destun y ffaith bod nifer o ffactorau yn gallu effeithio ar fynediad at wasanaethau, gan gynnwys trefniadau'r carchar a phwysau ar wasanaeth a datblygiadau o ran COVID-19.</p>	<p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Isadran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Ebrill 2023</p>
		<p><b><u>Cynnydd ar yr ymrwymadau (Mawrth 2023)</u></b></p> <p><b>HMPPS/NHS England</b> Parheir i reoli gweithgareddau ar y lefel leol, ac mae strwythurau llywodraethu iechyd a gofal cymdeithasol yn caniatáu i faterion gael eu huwchgyfeirio drwy'r llinell weithredol. Mae Byrddau Cyflawni Lleol, comisiynwyr rhanbarthol a Llywodraethwyr yn parhau i fonitro rhestrau aros yn lleol er mwyn i garcharorion gael mynediad at wasanaethau iechyd.</p> <p><b>Llywodraeth Cymru</b> Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r byrddau iechyd a'u cefnogi ag adnoddau ychwanegol fel rhan o'r adferiad er mwyn iddynt allu mynd i'r afael ag amseroedd aros. Iechyd meddwl yw'r maes gwariant uchaf o hyd yn y GIG yng Nghymru. Yn 2022-23, mae'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer Iechyd Meddwl sydd wedi'i darparu i Fyrddau Iechyd Lleol yn fwy na £760 miliwn.</p>	<p><b>HMPPS:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu a Gofal</p> <p><b>NHS England:</b> Cyfarwyddwr Iechyd a Chyfiawnder, y Lluoedd Arfog a SARCau</p> <p><b>Llywodraeth Cymru:</b> Dirprwy Gyfarwyddwr, Isadran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p> <p>Yn mynd rhagddo</p>

<b>Argymhellion</b>	
Cytunir	16
Cytunir yn Rhannol	4
Ni chytunir	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>22</b>